WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2018 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 990A2018-19

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys David Wilson, Nathan Couch, Terry Lewis ac Andrew Strong.

# Cynnwys


Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Y Cefndir 4

Y Prif Gasgliadau 5

Mae gan y Bwrdd Iechyd broesau cynllunio effeithiol, ond mae mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn gweithredu'n unol â'r bwriad, ac i wella perfformiad yn erbyn rhai targedau allweddol 5

Llywodraethu:

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud y trefniadau angenrheidiol i gefnogi llywodraethu da, mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau bod y trefniadau hynny'n cael eu gweithredu'n unol â'r bwriad. 5

Cynllunio Strategol:

Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir a gefnogir gan brosesau cynllunio ac mae gwaith yn parhau i ddiweddaru cynlluniau i ailddylunio gwasanaethau 13

Trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau:

Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes da o reoli adnoddau'n effeithiol, ac mae'n datblygu dull da o wella cynhyrchiant. Fodd bynnag, nid yw rhai agweddau bob amser yn ddigon strategol neu fanwl, ac mae angen gwella perfformiad yn erbyn rhai targedau allweddol 17

Argymhellion 28

Atodiadau

Atodiad 1 – cynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol 30

Atodiad 2 – Ymateb y Bwrdd Iechyd i argymhellion eleni 34

# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o waith asesiad strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn 2018. Cyflawnwyd y gwaith er mwyn cynorthwyo i fodloni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, sef bod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Roedd ein gwaith ar asesiad strwythuredig 2018 yn cynnwys cyfweliadau â swyddogion ac Aelodau Annibynnol, arsylwi'r bwrdd a'i bwyllgorau, ac adolygu dogfennau, perfformiad a data ariannol perthnasol. Cynhaliom hefyd arolwg o aelodau bwrdd ar draws holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG. O'r 23 o aelodau bwrdd a gafodd wahoddiad i gymryd rhan o fewn y Bwrdd Iechyd, cafwyd ymateb gan ddau ar bymtheg ohonynt (74%).

3 Mae gwaith asesu strwythuredig eleni yn dilyn themâu tebyg i waith blynyddoedd cynt, er inni ehangu'r cwmpas i gynnwys sylwebaeth ar drefniadau'n gysylltiedig â chaffael, rheoli asedau a gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae'r adroddiad yn rhannu ein canfyddiadau o dan dair thema - trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, ei ymagwedd at gynllunio'n strategol a'r trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. I gloi'r adroddiad, nodir ein hargymhellion.

4 Mae Atodiad 1 yn rhoi crynodeb o'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u cymryd i ymdrin ag argymhellion asesiad strwythuredig y flwyddyn gynt. Yn Atodiad 2 nodir ymateb y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn 2018.

# Y Cefndir

5 Yn ystod 2017-18 - parhaodd y Bwrdd Iechyd i gael ei fonitro drwy drefniant rheolaidd o dan Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru[1]. Unwaith eto, llwyddodd i fantoli'r gyllideb yn 2017-18, ac adroddodd warged o £246,000 ar ddiwedd y flwyddyn. Sicrhaodd hefyd Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) [2] cymeradwy ar gyfer 2018-2022 o fewn y terfyn amser a oedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

6 Mae'r Bwrdd Iechyd mewn cyfnod allweddol o ran gweithredu ei Strategaeth Dyfodol Clinigol. Rhaglen drawsnewid graddfa fawr yw hon sy'n trafod y cyfnod hyd at agor Ysbyty Athrofaol y Grange. Bydd y Strategaeth Dyfodol Clinigol yn effeithio ar wasanaethau ysbyty, ac ar wasanaethau a ddarperir yn y gymuned. Sicrhaodd y Bwrdd Iechyd gyllid ar gyfer Ysbyty Athrofaol y Grange ym mis Hydref 2016, ac mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo'n dda. Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gynllunio a gweithredu newidiadau sylweddol i'r modd y darperir gofal iechyd yn y rhanbarth. Mae'r flwyddyn nesaf felly'n hollbwysig er mwyn cwblhau'r gwaith cynllunio a chychwyn y broses o newid gwasanaethau.

[1] Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar y Cyd

[2] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Cynllun Tymor Canolig Integredig 2018/19 - 2020/21

7 Daeth ein Hasesiad Strwythuredig yn 2017 i'r casgliad bod gan y Bwrdd Iechyd uchelgais ac ymrwymiad clir i wella gofal iechyd ledled De Ddwyrain Cymru, ond bydd angen iddo gryfhau rhai agweddau ar lywodraethu, rheoli risg, rheoli ystadau a chynllunio'r gweithlu ymhellach. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at amryw o feysydd lle ceir arfer da yn gysylltiedig ag ymagwedd y Bwrdd Iechyd at arbedion ariannol, ei weledigaeth glir a'i drefniadau llywodraethu sydd wedi'u hen sefydlu, a'i reolaeth ar adnoddau, fel asedau, y gweithlu a thechnoleg gwybodaeth.

8 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylwebaeth ar agweddau allweddol ar gynnydd a materion sydd wedi codi ers ein hadolygiad asesu strwythuredig diwethaf. Dylid ystyried ein hadolygiad blaenorol wrth ddarllen yr adroddiad hwn.

# Y Prif Gasgliadau

9 **Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau cynllunio effeithiol, ond mae angen gwneud mwy o waith i gryfhau trefniadau llywodraethu a pherfformiad yn erbyn rhai targedau allweddol**.

10 Yn yr adrannau canlynol, rhoddir ystyriaeth fanylach i'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn erbyn argymhellion ein hasesiad strwythuredig blaenorol, ond mae angen cyflawni mwy o waith i ymdrin â´r argymhellion hynny'n llawn. Amlygir hyn drwy gydol yr adroddiad gan drawsgyfeirio i grynodeb o gynnydd cyffredinol yn erbyn argymhellion yn Atodiad 1.

## Llywodraethu

11 Fel yn y blynyddoedd cynt, archwiliwyd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn rhan o'n hasesiad strwythuredig. Rydym yn cynnig sylwadau ar y modd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cynnal eu busnes, a'r graddau y mae strwythurau trefniadol yn cefnogi trefniadau llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Buom hefyd yn edrych ar yr wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn ei derbyn i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad, a monitro'r graddau y mae'n cyflawni amcanion y sefydliad. Rydym wedi defnyddio canlyniadau ein harolwg o aelodau bwrdd, ein cyfweliadau ag aelodau bwrdd ac adolygiad o ddogfennau allweddol er mwyn helpu i ddeall enghreifftiau lle mae pethau'n gweithio'n dda, a lle ceir potensial i gryfhau'r trefniadau.

12 **Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud y trefniadau angenrheidiol i gefnogi llywodraethu da, gwelsom fod angen cyflawni mwy o waith i sicrhau bod y trefniadau hynny'n cael eu gweithredu'n unol â'r bwriad.**

### Gweinyddu busnes yn effeithiol

13 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn ei drefnu ei hun er mwyn helpu i weinyddu busnes yn effeithiol. Gwelsom fod **trefniadau i gefnogi effeithiolrwydd y bwrdd a'r pwyllgorau yn dda ar y cyfan, a bod gwaith parhaus yn cael ei gyflawni ar y bwrdd i gryfhau gwaith tîm.**

14 Mae trefniadau llywodraethu cadarn yn hollbwysig er mwyn rhoi cyfeiriad strategol, herio effeithiolrwydd darpariaeth a sicrhau bod camau unioni yn cael eu gweithredu i ddatrys problemau os ydynt yn codi. Mae gan y Bwrdd a'i bwyllgorau 'gylch busnes' da ac maent yn gweithredu'n effeithiol gan sicrhau ymdriniaeth â materion allweddol. Mae gweinyddiaeth cyfarfodydd y Bwrdd yn dda. Ceir eglurder hefyd wrth wneud a chofnodi penderfyniadau. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn adolygu eu

heffeithiolrwydd bob blwyddyn. Cwblhaodd tair rhan o bump (60%) o aelodau bwrdd hunanasesiad diweddaraf y Bwrdd yn 2018, ac roedd y gyfradd a ymatebodd yn is na'r arfer. Oherwydd y trosiant mewn Aelodau Annibynnol a'r newidiadau i aelodaeth pwyllgorau yn ystod 2018, bu'r Bwrdd yn asesu effeithiolrwydd yr holl bwyllgorau gyda'i gilydd, ar wahân i'r Pwyllgor Archwilio. Cwblhaodd y Pwyllgor Archwilio ei hunanasesiad ei hun ar sail Llawlyfr Pwyllgorau GIG Cymru. Bu'r Bwrdd yn trafod canfyddiadau'r hunanasesiad yn un o sesiynau datblygu'r bwrdd, a chytunodd ar gynllun er mwyn ymdrin â meysydd dysgu a gwella.

15 Yn ystod 2018, parhaodd Aelodau Annibynnol i ymgartrefu yn eu rolau newydd ac i ddatblygu perthnasoedd y naill â'r llall, a chyda swyddogion gweithredol, perthnasoedd sydd yn hanfodol er mwyn cael bwrdd effeithiol a chydlynus. Yn hunanasesiad y Bwrdd o'i effeithiolrwydd, canfuwyd perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol, a adlewyrchir hefyd yng nghanfyddiadau ein harolwg, gydag 14 o'r 17 (82%) o aelodau bwrdd yn adrodd bod y berthynas rhwng swyddogion gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nodai hunanasesiad y Bwrdd fod gwaith tîm yn thema i'w gwella, ac mae'n gweithio i fynd i'r afael â hyn.

16 Mae Aelodau Annibynnol wedi gallu cyrchu'r rhaglen ymsefydlu genedlaethol, ac mae'r Bwrdd Iechyd ei hun yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi i Aelodau Annibynnol, gan gynnwys rhaglen ymsefydlu er mwyn helpu aelodau newydd i ddod i ddeall y sefydliad, cymhlethdod yr amgylchedd gweithredol a'u rôl o ran sicrhau bod y sefydliad yn llwyddo i gyflawni ei amcanion. Roedd gan Aelodau Annibynnol a ymatebodd i'n harolwg o aelodau bwrdd farn gymysg ynghylch y rhaglen ymsefydlu, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth a ddarperir i gyflawni eu cyfrifoldebau a rhaglen datblygu'r bwrdd. Yn ein harolwg, canfuom fod:

- tri o'r naw (33%) o'r Aelodau Annibynnol yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r rhaglen ymsefydlu i aelodau bwrdd newydd o gymharu â 65% o Aelodau Annibynnol ledled Cymru
- pedwar o'r naw (44%) o Aelodau Annibynnol yn fodlon neu'n fodlon iawn â hyfforddiant a chefnogaeth yr oeddent wedi'i dderbyn er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau, o gymharu ag 83% o Aelodau Annibynnol ledled Cymru
- chwech o'r naw (67%) o Aelodau Annibynnol yn fodlon neu'n fodlon iawn â rhaglen datblygu'r bwrdd i gefnogi gwaith effeithiol gan y Bwrdd, o gymharu ag 85% o Aelodau Annibynnol ledled Cymru.

17 Mae'r Cadeirydd yn arfarnu'r Aelodau Annibynnol er mwyn gosod amcanion personol a nodi anghenion hyfforddi a datblygu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu rhaglen newydd er mwyn hyfforddi a datblygu'r bwrdd, er mwyn ymdrin ag anghenion dysgu.

18 Ers ein hadolygiad diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailgydbwyso'r llwyth gwaith a'r portffolios ymhlith y tîm gweithredol, ac wedi sefydlu dwy rôl newydd, sef Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyfarwyddwr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl. Y ogystal â hyn, rhoddwyd cyfleoedd datblygu i'r tîm gweithredol drwy drefnu bod rôl y Dirprwy Brif Weithredwr yn newid ar gylchdro.

19 Buom yn arsylwi sawl cyfarfod o'r Bwrdd a'i bwyllgorau, gan nodi eu bod yn gweithredu'n effeithiol. Er enghraifft, gwelsom weinyddiaeth a rheolaeth effeithiol yn y cyfarfod, trafodaeth, craffu a heriau o ansawdd da, gyda chyfraniad sylweddol gan Aelodau Annibynnol a Swyddogion Gweithredol. Roedd trefniadau da hefyd ar waith i uwchgyfeirio pryderon i'r Bwrdd. Gwelsom fod rhai pwyllgorau yn canolbwyntio ar faterion neu eitemau agenda tebyg yn aml, er bod hynny o safbwynt gwahanol yn unol â chylch gorchwyl y pwyllgorau; Gwelsom gyfathrebu da a llif dda o wybodaeth rhwng y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion a'r Pwyllgor Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Fodd bynnag,

dywedodd rhai aelodau bwrdd wrthym nad yw'r math hwnnw o gyfathrebu bob amser yn digwydd mewn modd systematig rhwng pwyllgorau. Dangosai hunanasesiad y Bwrdd o'i effeithiolrwydd hefyd ddiffyg dealltwriaeth ymhlith aelodau'r bwrdd ynghylch rolau a chyfrifoldebau pwyllgorau, gan arwain at ganfyddiadau bod gwaith yn cael ei ail-wneud, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i fynd i'r afael â hyn.

## Rheoli risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol

20 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn rhoi sicrwydd iddo'i hun ei fod yn rheoli risgiau i gyflawni blaenoriaethau. Gwelsom fod y **Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd i ddatblygu fframwaith sicrwydd bwrdd, a bod gwaith ar y gweill i wella a chryfhau trefniadau rheoli risg**.

21 Mae'n hanfodol cael Fframwaith Sicrwydd Bwrdd[3] (FfSB) a system rheoli risg effeithiol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn rhoi sylw i risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei FfSB gyda chefnogaeth gan y tîm Archwilio a Sicrwydd.[4] Cafodd drafft o'r FfSB ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2018 er mwyn cael sylwadau arno. Roedd y Bwrdd yn bwriadu trafod fersiwn nesaf y FfSB yn ei sesiwn friffio ym mis Chwefror 2019, er mwyn iddo allu ystyried unrhyw wybodaeth bellach a oedd yn deillio o'r adolygiad allanol o'i ymagwedd at reoli risg. Mae'r gwaith yn parhau i fapio'r risgiau strategol a'r ffynonellau sicrwydd gofynnol yn y FfSB. Nid yw'r FfSB ond ar ffurf ddrafft, felly nid ydym wedi cynnal adolygiad ffurfiol ohono. Roedd pymtheg o'r 17 (88%) o aelodau bwrdd a ymatebodd i'n harolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cyfrannu at nodi'r risgiau strategol, sydd yn debyg i gyfartaledd Cymru gyfan (91%).

22 Mae trefniadau rheoli risg strategol y Bwrdd Iechyd yn addas i'r diben ar y cyfan, ac roedd yr ymatebion i'n harolwg o aelodau bwrdd yn gadarnhaol ynghylch y trefniadau hynny gan amlaf. Gofynnwyd i aelodau bwrdd i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â sawl datganiad ynghylch rheoli risgiau strategol. Yn ein harolwg, canfuom fod:

- 16 o 17 (90%) o aelodau bwrdd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall y risgiau i gyflawni amcanion strategol a'r modd y mae'r risgiau hynny'n cael eu rheoli (cyfartaledd Cymru 91%)
- 14 o'r 17 (80%) o aelodau bwrdd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod yr wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd yn galluogi aelodau i graffu'n effeithiol ar gamau a gymerwyd i liniaru risgiau (cyfartaledd Cymru 77%)
- 14 o'r 17 (80%) o aelodau bwrdd yn cytuno'n gryf fod ganddynt ddealltwriaeth glir ynghylch y modd y caiff risgiau eu rheoli a'u huwchgyfeirio i'r Bwrdd a'i bwyllgorau (cyfartaledd Cymru 86%)

23 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw cofrestr risg gorfforaethol, ac yn ei chyflwyno'n rheolaidd gerbron y Pwyllgorau a'r Bwrdd. Yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2017, gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei drefniadau rheoli risg er mwyn sicrhau bod risgiau corfforaethol yn cael eu huwchgyfeirio a'u rheoli'n effeithiol (Argymhelliad 3, 2017). Cafwyd sicrwydd rhesymol drwy adroddiad y tîm Archwilio a Sicrwydd ar y trefniadau rheoli risg is-adrannol, dyddiedig mis Chwefror 2018.

[3] I ddibenion yr adroddiad hwn, dogfen allweddol yw FfSB a ddefnyddir i gofnodi ac adrodd wrth y Bwrdd ar brif amcanion strategol, risgiau, rheolaeth a sicrwydd y Bwrdd Iechyd.

[4] Partneriaeth Cydwasanethau GIG Cymru (PCGC) - Mae'r Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol, archwilio arbenigol ac ymgynghori yn ddwyieithog i'r GIG cyfan yng Nghymru.

Nododd y tîm Archwilio a Sicrwydd sawl maes lle ceir arfer da, fel cyfathrebu'n effeithiol ynghylch y strategaeth rheoli risg, rheolaeth dda dros risgiau iechyd a diogelwch a risgiau'n gysylltiedig â phrosiectau mawr, trefniadau effeithiol i drafod risgiau ac adrodd arnynt mewn cyfarfodydd drwy'r holl sefydliad, ac ymwybyddiaeth ymhlith uwch swyddogion a staff o'u cyfrifoldebau i reoli risg. Cyflwynodd y tîm Archwilio a Sicrwydd hefyd argymhellion i wella'r rheolaeth ar risg. Mae hyn yn cynnwys un argymhelliad uchel ei flaenoriaeth i gyflwyno 'cynllun gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn' lle bo'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd yn cytuno ar y datblygiadau sydd eu hangen o ran rheoli risg ac adnoddau, gyda therfynau amser yn cael eu pennu a'u monitro er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu bodloni.

24 Gwelsom hefyd welliannau o ran adrodd am risg. Er enghraifft, mae'r adroddiadau dangosfwrdd risg chwarterol a gynhyrchir gan y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rhoi crynodeb o'r risgiau i'w gwneud yn fwy hygyrch i'r Bwrdd. Mae'r Adroddiad Dangosfwrdd Risg Corfforaethol yn gynhwysfawr ac yn hawdd ei ddeall ac mae'n rhoi trosolwg da o risgiau strategol y Bwrdd Iechyd. Cafodd un ar ddeg o'r 29 o risgiau a nodwyd yn yr Adroddiad Dangosfwrdd Risg Corfforaethol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2019 eu nodi'n wreiddiol ar y gofrestr risg gorfforaethol yn 2016 (1 risg yn unig) ac yn 2017. Yn ôl y Bwrdd Iechyd, caiff camau lliniaru er mwyn rheoli risg eu hadolygu'n rheolaidd i weld a ydynt yn effeithiol, a gwelir hynny'n glir o'r newid mewn sgoriau risg ar gyfer amryw o risgiau, gan gynnwys un a nodwyd yn 2017.

25 Yn Strategaeth Rheoli Risg gyfredol y Bwrdd Iechyd, nodir y diffiniadau a'r egwyddorion sy'n sail i'w awydd am risg yng nghyswllt deg maes busnes craidd, fel diogelwch cleifion a chyllid. Fodd bynnag, o'r sylwadau gan aelodau bwrdd a ymatebodd i'n harolwg gwelir pryderon ynghylch y graddau y mae'r awydd am risg yn berthnasol drwy'r holl sefydliad, ac o ran a oes dealltwriaeth gyffredin o'r datganiad risg. Dylid mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn rhan o gynlluniau'r Bwrdd Iechyd i ail-lunio ei ddatganiad awydd risg pan fo'r FfSB wedi'i gwblhau'n derfynol, a'r holl risgiau strategol wedi'i gynnwys ynddo.

26 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo gryfhau'r trefniadau rheoli risg, ac wedi canfod capasiti ac adnoddau ychwanegol er mwyn cwblhau adolygiad risg, y bydd yn adrodd yn llawn arno ym mis Mawrth 2019. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi egluro'r rolau ar gyfer casglu a monitro risgiau corfforaethol a chlinigol, nac wedi asesu a oes ganddo gapasiti digonol i oruchwylio a gwella'r rheolaeth ar risg ar draws y sefydliad.

## Ymwreiddio system gadarn ar gyfer sicrwydd

27 Buom hefyd yn archwilio a oes gan y Bwrdd Iechyd system effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol i gefnogi sicrwydd y bwrdd. Gwelsom fod **rheolaethau mewnol wedi'u sefydlu a bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau agweddau ar ei drefniadau archwilio clinigol**.

28 Cynhelir busnes y Bwrdd Iechyd yn unol â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Rheolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo, sy'n nodi rolau, cyfrifoldebau a lefelau awdurdod. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio fersiwn ddiweddaraf Cymru gyfan o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog[5] a'r Rheolau Sefydlog[6] (dyddiedig 2014) a gaiff eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio. Cytunwyd ar gynnig i adolygu'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog presennol yng nghyfarfod Cyfarwyddwyr Cyllid

[5] Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gyfer Byrddau Iechyd - Mawrth 2014

[6] Rheolau Sefydlog a Chadw a Dirprwyo Pwerau - Mawrth 2014

Cymru Gyfan ym mis Tachwedd 2016. Mae'r gwaith hwn yn parhau, a chytundeb ffurfiol yn dal heb ei sicrhau ar gyfer unrhyw newidiadau i'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog enghreifftiol.

29 Mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Dirprwyo cyfredol (Mawrth 2018), ac mae'n parhau i godi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd llenwi'r Gofrestr Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd a Datganiadau Buddiant.

30 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwylio ac yn monitro cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Rheolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo. Y mae'n adolygu adroddiadau ar Lywodraethu, Gweithdrefnau Rheoli Ariannol, Materion Cyfrifyddu Technegol, Gweithrediadau Tendro Sengl a thaliadau dros £100,000 yn rheolaidd. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r Gofrestr Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd a Datganiadau Buddiant bob blwyddyn, ac fe gynhaliwyd yr adolygiadau diweddaraf ym mis Mawrth ac Ebrill 2018.

31 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn monitro perfformiad ariannol a gweithredol yn rheolaidd. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i ymdrin â pherfformiad gwael. O adolygu Adroddiadau Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd, canfuom fod ansawdd yr wybodaeth a gyflwynir yn ddigonol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro perfformiad yn erbyn y CTCI gyda ffocws ar gyflawni yn erbyn y prif dargedau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y Dangosfwrdd Perfformiad. Ceir adroddiadau ar brif bwyntiau pob un o'r saith cynllun newid gwasanaeth sy'n sail i'r CTCI, sy'n nodi cyflawniadau allweddol, meysydd sy'n destun pryder neu lle ceir risg, a chamau allweddol ar gyfer y chwarter nesaf. Mae'r Dangosfwrdd Perfformiad wedi'i atodi i'r adroddiad ac yn nodi tueddiadau mewn perfformiad ac yn amlygu meysydd lle ceir risg.

32 Caffaelodd y Bwrdd Iechyd system deallusrwydd busnes, Qlik Sense, ym mis Mawrth 2018, a fydd yn cael ei gweithredu dros y tair blynedd nesaf. Deallwn y bydd system Qlkik Sense yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gyfuno ffynonellau data er mwyn creu un darlun fydd yn galluogi defnyddwyr i ddadansoddi ac ymchwilio i berthnasoedd o fewn y data. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn esgor ar lawer o fanteision, gan gynnwys adroddiadau deinamig, gwybodaeth amser real, awtomeiddio dangosfyrddau perfformiad, y gallu i gysylltu data â systemau allweddol eraill, ac un lleoliad ar gyfer adroddiadau. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod wedi dechrau gweithredu'r rhaglen ar gyfer y Dangosfwrdd Ansawdd, y dadansoddiad gweithgarwch Damweiniau ac Achosion Brys, atgyfeiriadau a gweithgarwch radioleg, monitro llwybr canser unigol a Vitalpac[7]. Mae'n cynllunio i gynnwys rhaglenni pellach erbyn diwedd mis Rhagfyr 2018.

33 Nododd naw o'r 17 (53%) o aelodau bwrdd a ymatebodd i'n harolwg fod y Bwrdd wedi cytuno ar yr wybodaeth yr oedd arno ei hangen ar gyfer trosolwg a chraffu, o gymharu â'r 75% o aelodau bwrdd ledled Cymru. Yn ôl sylwadau gan ambell aelod bwrdd a ymatebodd i'n harolwg, mae'r Bwrdd yn dal i weithio i gytuno ar natur a manylder yr wybodaeth sydd ei angen i ddibenion craffu a sicrwydd. Serch hynny, roedd aelodau bwrdd yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch yr wybodaeth yr oeddent wedi'i derbyn, ond yn llai cadarnhaol ynghylch y cydbwysedd rhwng materion strategol a gweithredol. O'r 17 o ymatebwyr:

- roedd 16 (94%) ohonynt yn teimlo'n hyderus bod y Bwrdd yn derbyn digon o wybodaeth yn sail ar gyfer penderfyniadau

[7] System glinigol symudol yw Vitalpac sy'n monitro ac yn dadansoddi arwyddion bywyd cleifion er mwyn canfod a yw eu cyflwr yn dirywio, ac sy'n rhoi sgoriau risg i sbarduno'r angen am ofal angenrheidiol pellach.

- roedd 15 (89%) ohonynt yn teimlo'n hyderus bod yr wybodaeth a dderbynnir gan y Bwrdd yn ddigonol er mwyn cael sicrwydd ynghylch risg i'r sefydliad a pherfformiad y sefydliad
- roedd 13 (77%) ohonynt yn teimlo'n hyderus bod yr wybodaeth a dderbynnir gan y Bwrdd yn trafod holl ehangder busnes neu swyddogaethau'r sefydliad, bod yr wybodaeth a dderbynnir gan y Bwrdd yn trafod pob mater strategol, a bod yr wybodaeth yn cefnogi craffu da
- roedd 11 (69%) yn teimlo'n hyderus ynghylch ansawdd a chywirdeb yr wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd
- roedd naw (53%) yn teimlo'n hyderus bod y Bwrdd yn derbyn cydbwysedd priodol o wybodaeth am faterion strategol a gweithredol.

34 Canfu ein gwaith ar asesiad strwythuredig 2017 fod papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn aml yn cynnwys rhai cannoedd o dudalennau, a bod rhai o'r cyfarfodydd weithiau'n parhau am hyd at bum awr. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno fformat newydd ar gyfer adroddiadau'r bwrdd a phwyllgorau sy'n cynnwys hyperddolenni i bapurau cefndir ychwanegol. Mae'r fformat newydd wedi bod o gymorth i leihau'r pecyn o bapurau ac i ganolbwyntio ar yr wybodaeth allweddol sydd ei hangen er mwyn gwneud penderfyniadau. Roedd papurau'r Bwrdd ar gyfer cyfarfod mis M edi 2018 yn cynnwys 182 o dudalennau, a pharhaodd y cyfarfod am oddeutu tair awr. Ar y cyd â chadeiryddion ei bwyllgorau, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i roi'r trefniadau hyn ar waith yn yr holl bwyllgorau (Argymhelliad 2, 2017).

35 Mae'n bwysig bod aelodau bwrdd yn deall ac yn asesu perfformiad y sefydliad o safbwynt cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Fframwaith Sicrwydd a Gwella Ansawdd[8] sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni hyn. Mae'r ddogfen hon yn trafod sicrwydd ansawdd, rheoleiddio proffesiynol, profiadau cleifion a gwella ansawdd. Caiff perfformiad ei fonitro gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn ei gyfarfodydd deufisol.

36 Bydd y Bwrdd yn ystyried stori claf ym mhob un o'i gyfarfodydd. Yn y gorffennol, ni fu storïau'r claf bob amser yn gytbwys i ddangos agweddau cadarnhaol a negyddol ar ofal. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwaith yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â hyn a bellach yn cysylltu storïau cleifion ag eitemau allweddol ar yr agenda ym mhob cyfarfod bwrdd.

37 Mae gan y Bwrdd Iechyd amserlen o rawdiau chwarterol i Aelodau Annibynnol, lle cânt weld a chlywed gan staff, o lygad y ffynnon, am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch diogelwch. Mae'r rhawdiau hyn yn hyrwyddo diwylliant sy'n rhoi sylw i ddiogelwch, ac yn sicrhau bod aelodau'r bwrdd yn dangos eu hymrwymiad tuag at ddiogelwch mewn modd gweladwy, drwy wrando ar staff a'u cefnogi pan fydd problemau'n cael eu codi. Bydd Aelodau Annibynnol yn rhoi adborth ysgrifenedig am eu hymweliadau â'r Cadeirydd, a darperir gwybodaeth hefyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, a hefyd i'r Bwrdd. Roedd ychydig dros hanner (55%) yr Aelodau Annibynnol a ymatebodd i'n harolwg yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r cyfleoedd i gwrdd â staff ac ymweld â gwasanaethau a wardiau, o gymharu â deuparth (65%) yr Aelodau Annibynnol ledled Cymru. Fe'n hysbyswyd bod rhai Aelodau Annibynnol wedi bod yn mynd ar rawdiau heb eu trefnu o amgylch ardaloedd clinigol, a oedd yn ôl pob tebyg wedi tarfu ar ofal cleifion ar adegau. Fodd bynnag, ni cheir adborth ffurfiol o ymweliadau heb eu trefnu.

[8] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Fframwaith Sicrwydd a Gwella Ansawdd Drafft

38 Yn adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)[9] nodwyd cynnydd yn y cwynion am y Bwrdd Iechyd, o 90 i 121 (34%) rhwng 2016-17 a 2017-18. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a adroddwyd wrth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn dangos bod cwynion yn parhau i gynyddu, ac fe gafodd OGCC 121 o gwynion am y Bwrdd Iechyd rhwng mis Ebrill 2018 a mis Ionawr 2019.

39 Mae data'r Bwrdd Iechyd ar gwynion a digwyddiadau difrifol rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2018 yn dangos:

- bod cyfanswm y cwynion ffurfiol a gafwyd yn gostwng o gymharu â'r un cyfnod yn 2017, ond bod perfformiad yn erbyn y targed ymateb 30 diwrnod hefyd yn gostwng. Y mis Rhagfyr 2018, dim ond 41% o'r rhai a gwynodd a gafodd ym ateb o fewn 30 diwrnod
- bod y gyfradd gydymffurfio ar gyfer cau digwyddiadau difrifol o fewn 60 diwrnod yn gostwng: cafwyd cydymffurfiaeth o 63% ym mis Tachwedd 2018, a 29% ym mis Rhagfyr 2018.

40 Mae tîm 'Gweithio i Wella' y Bwrdd Iechyd yn ymdrin â chwynion, a hefyd â digwyddiadau difrifol ac achosion OGCC. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw'r cynnydd mewn cwynion yn deillio o'r ffaith ei bod hi'n haws defnyddio'r weithdrefn gwyno, bod y trefniadau i ddatrys ac ymchwilio i gwynion yn wael neu a yw'n adlewyrchiad o ansawdd yr ymdriniaeth â chwynion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella a nodwyd gan OGCC yn rhan o raglen gwella gwasanaethau 'Gweithio i Wella', sy'n anelu i wella perfformiad ac ansawdd yr ymdriniaeth â chwynion a digwyddiadau.

41 Ym mis Mai 2017, rhoddodd y Tîm Archwilio a Sicrwydd sicrwydd cyfyngedig ynghylch trefniadau archwilio clinigol y Bwrdd Iechyd. Ar y pryd, canfu'r tîm Archwilio a Sicrwydd nad oedd y Bwrdd Iechyd yn cynnal rhaglen o archwiliadau clinigol lleol, fod y broses ar gyfer mynd ar drywydd canlyniadau archwilio clinigol yn anghyson, fod y mecanwaith ar gyfer coladu ac adrodd ar weithgarwch archwilio clinigol ar lefel cyfarwyddiaeth yn aneffeithiol, ac nad oedd mecanwaith i nodi cyfleoedd hyfforddi a datblygu archwiliadau clinigol i staff perthnasol. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Meddygol bapur yn rhoi disgrifiad o'r sefyllfa o ran archwilio clinigol i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror 2018, gan nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ymdrin â'r argymhellion archwilio blaenorol. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y Bwrdd Iechyd yn parhau â'i waith ar y map sicrwydd archwilio clinigol a'i waith yn datblygu'r strategaeth archwilio clinigol, a rhoddodd y newyddion diweddaraf am gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2019. Mae drafft Fframwaith Sicrwydd a Gwella Ansawdd y Bwrdd Iechyd yn amlinellu ei fwriad i wella canlyniadau Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol o'r naill flwyddyn i'r nesaf. Pan fydd adroddiadau o Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol yn nodi materion sy'n allweddol i'r Bwrdd Iechyd, bydd yn datblygu camau, a chytuno ar y camau hynny, er mwyn datrys y materion cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. (Argymhelliad 4, 2017). Fodd bynnag, nid yw'r Fframwaith Sicrwydd a Gwella Ansawdd yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at archwiliadau clinigol lleol.

42 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwylio cynnydd yn erbyn ein hargymhellion ac ar gymhellion a wnaed gan y tîm Archwilio a Sicrwydd. Dangosai ein hadolygiad o'r Traciwr Argymhellion Archwilio fod llawer o derfynau amser ar gyfer cwblhau yn erbyn argymhellion a oedd yn dal ar agor yn dyddio'n ôl i 2015, 2016 a 2017. Nid oedd dyddiad gweithredu targed ar gyfer rhai o'r argymhellion. Bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i ymdrin â'r argymhellion hyn sy'n weddill, a chyflwynwyd adroddiad gerbron y Pwyllgor Archwilio ar yr adolygiad o'r traciwr archwilio yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2018. Dangosai'r adroddiad hwn gynnydd sylweddol o ran ymdrin ag argymhellion sy'n weddill, ac

[9] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017/18

argymhellodd y Tîm Gweithredol y dylid cau 58 o'r 84 o argymhellion lefel uchel, yr oedd y Pwyllgor Archwilio yn fodlon eu bod wedi'u cwblhau. Bryd hynny, nid oedd unrhyw argymhellion uchel eu blaenoriaeth (coch), ond yr oedd 23 o argymhellion blaenoriaeth ganolig (ambr). Trafodwyd y rhain gan y Tîm Gweithredol, ac mae gwaith pellach ar y gweill er mwyn sicrhau bod y camau'n cael eu cwblhau. Mae'r gwaith yn parhau i sicrhau ymdriniaeth brydlon ag argymhellion. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu proses i dracio cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill, fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, i'w goruchwylio gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion. Ers ein gwaith archwilio, rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor archwilio yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2019 fod y system dracio newydd wedi cael ei chyflwyno.

## Canfod ac atal twyll a gordaliadau

43 Ymarfer paru data dwyflynyddol yw'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) sydd o gymorth i ganfod achosion o dwyll a gordalu. Gwneir hynny drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau neu drafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n ddull hynod effeithiol o ganfod ac atal twyll a gordaliadau, ac o helpu sefydliadau i atgyfnerthu eu trefniadau ar gyfer atal twyll a llygredd. Gwelsom fod y **Bwrdd Iechyd ar y cyfan wedi gwneud defnydd effeithiol o'r NFI fel elfen o'i drefniadau ar gyfer atal twyll, ond nad yw eto wedi adolygu'r holl barau data a argymhellwyd**.

44 Ym mis Ionawr 2017, derbyniodd y Bwrdd 7,989 o barau data yn rhan o'r ymarfer dwyflynyddol diweddaraf. Mae'r data a gaiff eu paru yn amlygu anghysondebau a all fod o gymorth i ganfod gwallau ac achosion o dwyll wrth eu hadolygu. Er nad ydym yn disgwyl i gyfranogwyr adolygu'r holl barau data, mae rhai o'r parau cyfatebol wedi'u pennu'n 'barau a argymhellir'. Ystyrir bod y parau hyn yn rhai risg uchel, felly argymhellir y dylid rhoi'r flaenoriaeth i'w hadolygu'n fuan. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd 458 o barau a argymhellir. Yn ein Hadroddiad Archwilio Blynyddol yn 2016-17, adroddwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da ar 20 Tachwedd 2017 wrth adolygu'r parau data, ond nad oedd wedi adolygu parau data tair ffordd rhwng cyflogres, taliadau credydwyr a Thŷ'r Cwmnïau. Mae'r rhain yn barau risg uchel am eu bod yn gallu adnabod buddiannau sydd heb eu datgan gan y staff, ac arferion posibl yn gysylltiedig â llygredd.

45 Yn ddiweddar, cynhaliom adolygiad pellach o gynnydd y Bwrdd iechyd wrth adolygu parau data'r NFI. Ar 30 Tachwedd 2018, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu 336 o barau data. Ystyriwn fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r NFI ar y cyfan, fel elfen o'i drefniadau ar gyfer atal twyll. Fodd bynnag, mae rhaglen we'r NFI yn dangos, er bod adolygiadau o'r parau data tair ffordd a argymhellwyd rhwng cyflogres, taliadau credydwyr a Thŷ'r Cwmnïau wedi cychwyn yn fuan yn 2018, nid yw'n cofnodi bod yr adolygiadau hynny wedi'u cwblhau a'r materion a oedd yn codi wedi'u datrys. Mae'n hanfodol i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gwaith i adolygu'r parau hyn yn cael ei gwblhau ar frys. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod yr adolygwr yn nodi cofnodion yn rhaglen we'r NFI lle'r oedd gan aelodau staff fuddiannau mwn cwmnïau nad oeddent wedi'u datgan i'r Bwrdd Iechyd.

46 Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud defnydd effeithiol o'r NFI yn y dyfodol, argymhellwn ei fod yn rhoi cynllun gweithredu ar waith i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i'r parau y bydd yn eu derbyn ym mis Ionawr 2019, yn rhan o'r ymarfer NFI nesaf, mewn modd amserol.

Sicrhau fframwaith cadarn ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch.

47 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd yn gweithio i gryfhau seiberddiogelwch a sicrhau cydymffurfiaeth lawn ag amseroedd ymateb i geisiadau am wybodaeth statudol**.

48 Mae'r gyfradd sy'n cydymffurfio â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth yn gwella, ac ar hyn o bryd ar 89%, ond yn is na tharged Cymru gyfan o 95%. Yn 2017, adroddwyd bod perfformiad y Bwrdd Iechyd o ran cydymffurfiaeth staff â'i raglen hyfforddi llywodraethu gwybodaeth ar 83%.

49 Darparodd y Bwrdd Iechyd adnoddau staff ychwanegol ar gyfer ei uned llywodraethu gwybodaeth o ganol 2018 er mwyn cryfhau'r trefniadau cyfrinachedd gwybodaeth a gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â GDDC (Argymhelliad 5, 2017). Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn ymateb yn brydlon i geisiadau am wybodaeth statudol, yn gysylltiedig â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data. Disgwylir i'r Bwrdd Iechyd ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth cyn pen 20 diwrnod gwaith, ac i geisiadau mynediad pwnc yn gysylltiedig â'r Ddeddf Diogelu Data o fewn mis. Yn ôl y Bwrdd Iechyd, mae nifer y ceisiadau rhyddid gwybodaeth ar gynnydd, ac mae'n ymdrin â 50 o geisiadau bob mis ar gyfartaledd. Er bod amseroedd ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth wedi dechrau gwella tua diwedd 2018, 73% oedd y gyfradd gydymffurfio ar gyfer y flwyddyn o gymharu ag 84% yn 2017. Dechreuodd perfformiad yn gysylltiedig ag amseroedd ymateb i geisiadau data mynediad pwnc wella tua diwedd 2018, ar ôl amrywio rhwng 83% ac 89% am ran helaeth o'r flwyddyn. 88% oedd y gyfradd gydymffurfio â cheisiadau mynediad pwnc data yn 2018 o gymharu â 96% yn 2017.

50 Yn fuan yn 2018, cynhaliwyd adolygiad allanol o drefniadau llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth o fewn y Bwrdd Iechyd yn rhan o raglen waith ehangach ar draws GIG Cymru. Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd asesiad seiberddiogelwch allanol yn 2018, ac yn rhan o hynny nodwyd camau gwella. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynllun gweithredu seiberddiogelwch er mwyn ymateb i'r argymhellion hyn, ac wrth wneud hynny yn diweddaru patsys diogelwch ac yn cyflwyno meddalwedd a chaledwedd yn lle rhai nas cynhelir. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd y Bwrdd Iechyd yn gweithio i gryfhau trefniadau seiberddiogelwch ac yn bwriadu sefydlu tîm arbenigol i gryfhau'r rheolaeth, cydnerthedd a chynlluniau ymateb i ddigwyddiadau. Ers ein gwaith archwilio, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ein cynghori ei fod bellach yn gweithredu cynlluniau i gryfhau seiberddiogelwch. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei gynlluniau adfer ar ôl trychineb TGCh yn cael eu diweddaru, a'i fod yn eu diweddaru yn dilyn newidiadau diweddar i'r seilwaith TGCh.

## Cynllunio strategol

51 Yn rhan o'n gwaith, buom yn archwilio'r modd y mae'r Bwrdd yn pennu amcanion strategol ar gyfer y sefydliad, ac i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio i gyflawni ei amcanion yn unol â'r adnoddau sydd ganddo, neu y gall eu sicrhau. Yn olaf, roeddem am wybod a oedd y Bwrdd Iechyd yn monitro cynnydd y cynlluniau hyn yn effeithiol. Gwelsom fod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir a gefnogir gan **brosesau cynllunio effeithiol, a bod gwaith yn parhau i ddiweddaru cynlluniau i ailddylunio gwasanaethau.**

## Pennu'r cyfeiriad strategol

52 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn mynd ati i bennu ei flaenoriaethau mewn ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol, ac a yw amcanion cytunedig wedi'u diffinio mewn cynlluniau strategol. Gwelsom fod gan y Bwrdd **Iechyd ddull effeithiol o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn sail ar gyfer datblygu strategaeth**.

53 Yn Strategaeth Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd, nodir yn glir fod y Bwrdd Iechyd yn anelu i ailwampio'r model clinigol. Bu'r Bwrdd yn cydweithio i gytuno ar yr amcanion strategol, gan drefnu ei CTCI i saith Cynllun Newid Gwasanaeth (CNG). Mae'r CNGau wedi'u halinio â meysydd â blaenoriaeth y Bwrdd Iechyd ac yn ymdrin â phwysigrwydd y pum ffordd o weithio sy'n ofynnol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; gan lunio'r rhaglenni gwaith hyn yn seiliedig ar strategaethau gwasanaethau clinigol, CTCIau Adrannol a rhaglenni a blaenoriaethau cenedlaethol.

54 Mae Strategaeth Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd (2015)[10] yn cydnabod bod angen ymgysylltu a chyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth a chleifion er mwyn iddynt fod yn bartneriaid cyfartal â gweithwyr proffesiynol wrth wneud penderfyniadau ynghylch gofal iechyd a'r canlyniadau y maent am eu gweld yn sgil y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Yn 2017, gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu, ailwampio a diweddaru'r Strategaeth Ymgysylltu, gan fod rhai rhannau o'r strategaeth honno wedi dyddio. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y bydd y Strategaeth Ymgysylltu ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2019.

55 Yn 2018, sefydlodd y Bwrdd Iechyd ffrwd waith benodol ar y Gweithlu a Datblygu Trefniadol/Ymgysylltu â Staff yn rhan o'i Raglen Dyfodol Clinigol. Ar adeg ein harchwiliad, yr oedd yn ymgynghori â grwpiau staff a Fforwm Partneriaeth yr Undebau Llafur ar Fframwaith Profiadau Cyflogeion newydd (Argymhelliad 7, 2017).

56 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n ffurfiol â rhanddeiliaid wrth ofyn barn ynghylch ei nodau a'i flaenoriaethau strategol, ac ynghylch siâp gwasanaethau clinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dulliau amrywiol, fel gweithdai a fforymau cyhoeddus i ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac yn rhan o'r Rhaglen Dyfodol Clinigol, aeth ati hefyd i sefydlu ffrwd waith ar gyfer Cyfathrebu ac Ymgysylltu, a arweinir gan Ysgrifennydd y Bwrdd. Nodwyd hefyd y ffaith bod y Bwrdd Iechyd a'r Prif Weithredwr yn enwedig yn gwneud defnydd mynych o'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo a chyfathrebu ynghylch sesiynau cynllunio'r CTCI a'r Strategaeth Dyfodol Clinigol.

57 Mae'r Bwrdd Iechyd yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent Fwyaf a phum Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, sy'n sicrhau cysondeb rhwng y CTCI a chynlluniau Ardal a Llesiant Gwent Fwyaf. Canfu ein harolwg o aelodau bwrdd fod 15 o'r 17 (88%) o unigolion a ymatebodd yn teimlo bod y sefydliad yn ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid statudol a'r trydydd sector wrth ddatblygu a phennu ei amcanion strategol. Mae Pwyllgor Partneriaeth a Llesiant Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd yn goruchwylio trefniadau ymgysylltu partneriaethol ac mae Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn mynychu'r cyfarfod pwyllgor hwn i roi'r newyddion diweddaraf. Cyflwynir cofnodion y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd er gwybodaeth i'r

[10] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Strategaeth Ymgysylltu

Pwyllgor Partneriaeth a Llesiant Cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor Partneriaeth a Llesiant Cyhoeddus yn gyfrifol am oruchwylio a chraffu ar gyfraniad y Bwrdd Iechyd at gyflawni'r Cynlluniau Ardal a Llesiant.[11]

## Datblygu cynlluniau strategol

58 Buom yn ystyried dull y Bwrdd Iechyd o ddatblygu'r cynllun strategol, ac a oes strategaethau a chynlluniau priodol yn tanategu'r cynllun hwnnw sydd yn seiliedig ar ddadansoddiad o gostau, adnoddau ac arbedion. Gwelsom fod **gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd gref at gynllunio sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o'r galw a'r capasiti, a bod gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddaru modelau gwasanaeth sy'n sail i'r Strategaeth Dyfodol Clinigol.**

59 Mae gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd glir a chytunedig ar gyfer cynllunio, fu'n fodd iddo gydgysylltu datblygiad y CTCI. Mae Canllawiau Cynllunio Busnes CTCI y Bwrdd Iechyd yn disgrifio'r modd y bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu CTCIau is-adrannol ac yn gweithredu'r CTCI trosfwaol rhwng 2018 a 2021. Anogir is-adrannau'r Bwrdd Iechyd i edrych y tu hwnt i'r cylch cynllunio tair blynedd er mwyn alinio'r CTCIau lleol â'r Strategaeth Dyfodol Clinigol. Mae templedi cynllunio'r CTCI is-adrannol yn nodi penawdau busnes craidd dros y cyfnod cynllunio, a bydd y meysydd gwasanaeth wedyn yn ymhelaethu ar y penawdau hyn. Caiff y rhain hefyd eu proffilio o ran cyflawniad yn erbyn Fframwaith Cyflawni a Chanlyniadau Llywodraeth Cymru.

60 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn capasiti ychwanegol o fewn y Tîm Cynllunio, gan gyflwyno cynllunydd arweiniol ar gyfer pob is-adran i adlewyrchu'r model partner busnes ar gyfer cyllid a'r gweithlu. Mae ymagwedd cynllunio CTCI y Bwrdd Iechyd hefyd yn seiliedig ar wersi a ddysgir a gwerthusiadau. Mae'r Tîm Cynllunio yn gofyn am farn pob rhan o'r sefydliad a Llywodraeth Cymru ac yn defnyddio'r hyn a ddysgir gan Fyrddau Iechyd eraill i ddatblygu'r canllawiau cynllunio ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

61 Mae dadansoddiad o'r galw a'r capasiti yn cefnogi gwaith cynllunio strategol. Mae templedi cynllunio'r CTCI yn gofyn i'r Is-adrannau amlinellu eu dull o gynllunio ar gyfer galw a chapasiti, ac i ddangos sut maent yn cyfrannu at ddatblygu CTCI i'r sefydliad cyfan. Nid yw gwaith i gynllunio'r galw a chapasiti yn gyson ar draws pob rhan o'r Bwrdd Iechyd, er enghraifft, nid yw mor gryf ym maes gofal sylfaenol, eiddilwch a nyrsio ardal ag yn rhannau eraill y sefydliad.

62 Yn sail i'r CTCI, ceir Strategaeth Dyfodol Clinigol y bwrdd Iechyd, sy'n anelu i greu model clinigol newydd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gynhyrchu cynllun cyffredinol ar gyfer y gweithlu erbyn diwedd mis Mawrth 2019 er mwyn cefnogi'r Strategaeth Dyfodol Clinigol a threfniadau i agor Ysbyty Athrofaol y Grange yn brydlon. Er mwyn cwblhau'r cynllun trosfwaol ar gyfer y gweithlu, cytunodd y Bwrdd Iechyd ar amserlen uchelgeisiol i ddiweddaru'r 54 o fodelau gwasanaeth clinigol erbyn diwedd mis Rhagfyr 2018. Ar adeg ein harchwiliad, nodai asesiad risg y Bwrdd Iechyd ei hun na fyddai'r holl gynlluniau gwasanaeth yn cael eu cwblhau ar amser. Ers ein gwaith archwilio, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud ei fod wedi cwblhau gwaith ar y modelau gwasanaeth clinigol, a bod gwaith pellach ar y gweill i asesu eu heffaith a chychwyn eu gweithredu.

[11] Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi cynllun ardal rhanbarthol sy'n nodi ystod a lefel y gwasanaethau y maent yn bwriadu eu darparu, neu drefnu i'w darparu mewn ymateb i asesiad o angen. Mae'n ofynnol i bob awdurdod ddatblygu cynllun llesiant, sy'n amlinellu amcanion er mwyn gwella llesiant yn ei gymunedau a chyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

## Monitro cyflawniad y cynllun strategol

63 Yn olaf, buom yn ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd yn effeithiol o ran gweithredu cynlluniau strategol a chefnogi rhaglenni newid strategol.Gwelsom fod gan **y Bwrdd Iechyd drefniadau i fonitro ac adrodd ar gyflawniad y CTCI a'r Strategaeth Dyfodol Clinigol**.

64 Yn rhan o'n hadolygiad, buom yn ystyried y trefniadau ar gyfer herio a chraffu ar gyflawniad y CTCI, yn ogystal â chynnwys y cynlluniau. Mae'r Tîm Cynllunio a Pherfformiad yn adrodd bob chwarter ar gynnydd yn erbyn cyflawniad y CTCI wrth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ac wrth y Bwrdd, tra bo'r Tîm Gweithredol hefyd ynadolygu perfformiad yn erbyn pob rhan o'r CTCI.

65 Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei Fframwaith Cyflawni ar gyfer y CTCI ym mis Gorffennaf 2018, sy'n nodi sut mae'r sefydliad yn sicrhau y bydd yn cyflawni'r amcanion strategol. Mae Fframwaith Cyflawni'r CTCI yn atgyfnerthu pwysigrwydd perfformiad ar lefel yr unigolyn, y tîm, yr is-adran a'r sefydliad. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i asesu cynnydd, dysgu yn sgil ei berfformiad a gweithredu lle bo angen. Canfu ein harolwg o aelodau bwrdd fod yr holl aelodau a ymatebodd yn cytuno bod yr wybodaeth y maent yn ei derbyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o berfformiad y sefydliad yn erbyn ei CTCI.

66 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen trefniadau llywodraethu cadarn arno er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r Strategaeth Dyfodol Clinigol. Mae'r Prif Weithredwr yn cadeirio'r Bwrdd Cyflawni a'r Prif Weithredwr hefyd yw'r Uwch Swyddog Cyfrifol (USC) ar gyfer y rhaglen. Mae aelodau'r Tîm Gweithredol yn cadeirio'r saith is-grŵp sy'n gyfrifol am gyflawni ffrydiau gwaith penodol, sef: Ailddylunio gwasanaethau; Dylunio'r Gweithlu a'r Sefydliad; Cyfalaf ac Ystadau Strategol; Cyfathrebu ac Ymgysylltu; Seilwaith Cefnogol; Technoleg Gwybodaeth; ac Adeiladu Ysbyty Athrofaol y Grange. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Cyfarwyddwr Rhaglen a sefydlu llinell amser prosiect i gefnogi cyflawniad y strategaeth.

67 Mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn adrodd ar gynnydd yn erbyn cyflawniad y Strategaeth Dyfodol Clinigol wrth y Pwyllgor Cynllunio a Newid Strategol, ac wrth y Bwrdd. Buom yn adolygu cynnwys yr adroddiadau cynnydd Dyfodol Clinigol, a gwelsom eu bod yn darparu digon o wybodaeth i fonitro cynnydd, risgiau a materion yn effeithiol. Yn ein harolwg o aelodau'r bwrdd, gwelsom fod 16 o'r 17 (94%) o unigolion a ymatebodd yn cytuno bod yr wybodaeth y maent yn ei derbyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o berfformiad y sefydliad o ran cyflawni'r rhaglen newid strategol.

68 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i hunanasesu ei gynnydd cyffredinol wrth gyflawni'r Strategaeth Dyfodol Clinigol. Yn ystod ein gwaith maes, dyfarnwyd sgôr 'ambr' ar gyfer hyn sy'n dangos rhywfaint o gynnydd wrth gyflawni hyd yma yn y rhan fwyaf o'r meysydd, ond nid pob un ohonynt. Y mae hefyd yn dangos bod rhai risgiau'n gysylltiedig â chynlluniau lliniaru sy'n golygu bod angen i'r Bwrdd Iechyd fonitro neu weithredu mewn rhyw ffordd. Yn fras, mae'r dyfarniad ambr yn adlewyrchu'r sgoriau ar gyfer y gwahanol ffrydiau gwaith, ar wahân i'r ffrydiau gwaith ar gyfer Adeiladu Ysbyty Athrofaol y Grange a Chyfathrebu ac Ymgysylltu, y mae'r naill a'r llall yn 'wyrdd'. Mae adolygiad Gateway Llywodraeth Cymru[12] a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2018 yn atgyfnerthu'r asesiad hwn eto gyda dyfarniad 'ambr' wrth asesu'r hyder yng ngallu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni'n gyffredinol, ac yn amlinellu argymhellion er mwyn sicrhau llwyddiant. Rydym wedi gweld tystiolaeth bod cynllun gweithredu wedi'i

[12] Mae Proses Gateway yr OGC yn archwilio raglenni a phrosiectau ar adegau yn eu cylch oes lle mae angen gwneud penderfyniadau allweddol. Y mae'n edrych tua'r dyfodol er mwyn rhoi sicrwydd y gallant symud ymlaen yn llwyddiannus i'r cam nesaf; dyma'r broses sy'n cynnig arfer gorau mewn llywodraeth ddinesig ganolog, yn y sector iechyd, mewn llywodraeth leol ac yn y weinyddiaeth Amddiffyn.

sefydlu, ac fe gafodd y cynllun hwnnw ei gynnwys yn rhan o'r drafodaeth yng nghyfarfod Bwrdd Cyflawni Dyfodol Clinigol ym mis Medi 2018.

## Trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

69 I raddau helaeth, mae defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn dibynnu ar drefniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli ei weithlu, ei gyllid ac asedau ffisegol eraill. Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno sylwadau ar y trefniadau hynny ac ar y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i gynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant hyd yr eithaf. Rydym hefyd yn archwilio a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau.

70 Gwelsom fod **gan y Bwrdd Iechyd hanes da o reoli adnoddau'n effeithiol, a'i fod yn datblygu dull da o wella cynhyrchiant. Fodd bynnag, nid yw rhai agweddau bob amser yn ddigon strategol neu fanwl, ac mae angen gwella perfformiad yn erbyn rhai targedau allweddol**.

### Rheoli'r gweithlu

71 Y gweithlu yw ased mwyaf y Bwrdd Iechyd, yn bennaf gan fod cyflogau i gyfrif am gyfran sylweddol o'i wariant. Mae'n bwysig sicrhau bod y gweithlu yn gynhyrchiol ac wedi'i reoli'n dda, gan fod staff yn hollbwysig er mwyn darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, ac er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella ansawdd. Gwelsom fod y **Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n weithredol i reoli materion y gweithlu, ond bod cyfraddau absenoldeb salwch yn parhau i fod yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru, ac mae angen gwella'r gyfradd gydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol, y broses arfarnu a chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol**.

72 Mae'r tabl canlynol yn dangos perfformiad y Bwrdd Iechyd ar rai mesuriadau allweddol o gymharu â chyfartaledd Cymru. Yn Nangosyn 1 gwelir bod y Bwrdd Iechyd yn cymharu'n fwy ffafriol â chyfartaledd Cymru ar draws dau fesuriad, ac yn llai ffafriol â chyfartaledd Cymru ar draws tri mesuriad.

Dangosyn 1: perfformiad yn erbyn mesuriadau allweddol y gweithlu[13]

| Mesuriadau'r gweithlu | Bwrdd Iechyd | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|
| Absenoldeb oherwydd salwch | 5.2% | 5.3% |
| Trosiant | 7.8% | 6.9% |
| Swyddi Gwag | 3.4% | 2.6% |
| Arfarniadau | 74% | 67% |
| Hyfforddiant statudol a gorfodol | 67% | 73% |

[13] Salwch: cyfartaledd dros gyfnod treigl o 12 mis ym mis Gorffennaf 2018; Trosiant: cyfnod o 12 mis o fis Gorffennaf 2017 hyd fis Mehefin 2018; Swyddi Gwag: swyddi gwag a hysbysebwyd ym mis Gorffennaf 2018; Arfarnu: y 12 mis blaenorol ym mis Gorffennaf 2018; Hyfforddiant statudol a gorfodol: ym mis Gorffennaf 2018

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gweithlu GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gorffennaf 2018

### Absenoldeb oherwydd salwch

73 Mae Dangosyn 1 yn dangos bod perfformiad y Bwrdd Iechyd o ran absenoldeb salwch fymryn yn well na chyfartaledd Cymru. Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith i reoli absenoldeb salwch, nid yw'r cyfartaledd dro gyfnod treigl o 12 mis wedi newid, gan amrywio o amgylch 5.2%, sydd fymryn yn uwch na tharged y Bwrdd Iechyd o 5%. Mae'r ffigurau misol a adroddir wrth y Bwrdd yn dangos bod y gyfradd fisol wedi gostwng yn is na 5% ym mis Ebrill a mis Awst 2018, ond na lwyddwyd i gynnal y gostyngiad hwnnw. Mae ei drefniadau'n cynnwys hyfforddiant rheoli i reolwyr is-adrannol a galluogi staff i gyflawni dyletswyddau gwahanol i'w hannog i ddychwelyd i'r gwaith ynghynt. Bydd is-adrannau'n defnyddio cardiau sgorio misol i fonitro absenoldeb salwch, ac mewn cyfarfodydd sicrwydd bydd rheolwyr yn nodi themâu, meysydd problemus a modelau arloesol er mwyn lleihau salwch. Mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Salwch sydd yn datblygu offer ac yn ymgysylltu â'r staff i hyrwyddo rheolaeth well ar absenoldeb salwch. Yn adolygiad y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd o reolaeth ar absenoldeb salwch, rhoddwyd sicrwydd rhesymol (Mai 2018), a nodwyd sawl maes lle ceir arfer da.

### Trosiant

74 Yn Nangosyn 1 gwelir bod cyfradd drosiant y Bwrdd Iechyd yn uwch na chyfartaledd Cymru, a bod y Bwrdd Iechyd yn ei chael hi'n anodd cadw'r cyfraddau trosiant yn isel. Mae trosiant ymhlith staff nyrsio a bydwreigiaeth i raddau helaeth yn gysylltiedig ag ymddeoliadau.

75 Er mwyn cefnogi cynlluniau i gadw staff, datblygodd y Bwrdd Iechyd Fframwaith Profiadau Cyflogeion, sydd wedi'i gwblhau, yn barod i'w weithredu ym mis Chwefror 2019. Mae'r Fframwaith Profiadau Cyflogeion yn amlinellu chwe elfen ar gyfer llesiant ac ymgysylltu cadarnhaol, ac yn rhoi manylion ynghylch arferion cyfredol a nodweddion gwella a chynnydd uchelgeisiol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n weithredol i gyflwyno trefniadau i gadw staff ac i ddeall y rhesymau pam eu bod yn gadael. Mae'n cynnal sesiynau misol a anelir at staff sydd yn nesáu at eu hymddeoliad i ddarparu gwybodaeth am opsiynau i weithio'n hyblyg fydd yn eu galluogi i barhau i weithio i'r sefydliad os ydynt yn dymuno. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno holiadur ymadael ar-lein i'r holl staff, ond adroddir bod y gyfradd ymateb yn isel. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i annog mwy i lenwi'r holiadur. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu cynllun 18 pwynt i gadw nyrsys, a gaiff ei fonitro gan Dîm y Gweithlu a Datblygu Trefniadol a'r Grŵp Nyrsio Strategol.

### Swyddi Gwag

76 Gwelir yn Nangosyn 1 uchod mai 3.4% oedd y gyfradd swyddi gwag ym mis Gorffennaf 2018, ar sail swyddi a hysbysebwyd, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 2.6%. O ddadansoddi data Gwasanaeth Gweithlu Addysg a Datblygu GIG Cymru, gwelir bod cyfanswm y swyddi gwag wedi parhau'n gyson o gymharu â'r un cyfnod yn 2017. Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â threfniadau recriwtio ar draws yr holl grwpiau staff ac yn cael rhywfaint o lwyddiant. Roedd Adroddiad Diweddaru ar Berfformiad y Gweithlu (dyddiedig Hydref 2018) yn dangos bod gwaith sylweddol ar y gweill. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu hysbysebion a brandiau recriwtio, yn datblygu dangosyddion perfformiad

allweddol ar gyfer llinellau amser recriwtio meddygol, yn recriwtio meddygon o India ac yn cynnal digwyddiadau i nyrsys wedi'u hyfforddi mewn gwledydd tramor ac sy'n byw yn y DU.

77 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwneud â'r rhaglen genedlaethol i symleiddio'r broses o recriwtio nyrsys sydd newydd gymhwyso, ac wedi cyflwyno cynlluniau prentisiaeth llwyddiannus a chefnogaeth i staff gweinyddol ddatblygu i fod yn Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cyflwyno modelau staffio amgen i annog gwaith ar draws proffesiynau, ac i helpu i leihau hyd yr eithaf y risgiau sy'n gysylltiedig â swyddi gwag, fel penodi cymdeithion meddygol i'r gwasanaethau paediatrig, gwasanaethau eiddilwch, gofal heb ei drefnu a gofal sylfaenol, ymestyn rolau nyrsys i gyflenwi gwasanaethau ychwanegol a rolau therapïau cymysg, a rolau cefnogi ymarferydd cynorthwyol ym maes therapi.

78 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd heibio'r targed 71 diwrnod bob mis ers mis Ebrill 2018 o ran perfformiad yn erbyn y targed recriwtio, sef yr amser a gymerir o'r adeg pan fydd rheolwr yn gwneud cais am swydd wag hyd at gynnig diamod. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno cynlluniau gwella ac mae'r rheolwyr yn dweud wrthym eu bod yn dechrau gweld gwelliannau, ac ym mis Rhagfyr 67.9 diwrnod oedd yr amser cyfartalog a gymerwyd i recriwtio.

79 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio lleihau ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth a locwm, er enghraifft, drwy gynyddu'r defnydd o'i staff banc nyrsio. Dengys yr Adroddiad Diweddaru diweddaraf ar Berfformiad y Gweithlu (dyddiedig Hydref 2018) fod y Bwrdd Iechyd wedi cael rhywfaint o lwyddiant. Llwyddodd i leihau gwariant ar staff asiantaeth a staff asiantaeth meddygol, a chynyddu ei wariant banc rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2018. Gwelsom fod y costau'n gysylltiedig â defnyddio staff asiantaeth meddygol (locymau) wedi gostwng, ond nad yw'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl cyrraedd targed arbedion Llywodraeth Cymru. Roedd gwariant Asiantaeth (gan gynnwys Locymau) ar gyfradd premiwm yn cynrychioli 3.9% o gyfanswm y bil cyflogau ym mis Ebrill 2018, ac er ei fod yn amrywio drwy gydol y flwyddyn (gan ostwng i 3.2% ym mis Awst 2018), amcangyfrifir y bydd yn codi i 4.6% o gyfanswm y bil erbyn mis Mawrth 2019. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal peilot o system Banc Locymau Meddygol newydd o'r enw 'Patchwork'[14]. Prif nod cyflwyno'r system yw cynyddu nifer y staff yn y Banc Locymau Meddygol er mwyn sicrhau'r cyfraddau llenwi uchaf posib yn ystod y gaeaf, sydd hefyd yn helpu i leihau gwariant asiantaeth meddygol.

80 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi trefniadau ar waith i fodloni gofynion Deddf Staff Nyrsio (Cymru) 2016,[15] ond ceir heriau parhaus o ran sicrhau lefelau digonol o staff nyrsio, oherwydd prinder y staff sydd ar gael a chynnydd yn y galw am wasanaethau.

## Arfarniadau

81 Mae'r gyfradd gydymffurfio â'r broses arfarnu, yr Adolygiadau Datblygiad Blynyddol Personol (PADR) yn gwella. Yn Nangosyn 1 gwelir bod tri chwarter o staff y Bwrdd Iechyd (74%) wedi derbyn arfarniad ac adolygiad datblygiad personol yn y 12 mis diwethaf, sydd yn well na chyfartaledd Cymru ond yn dal yn is na tharged Cymru gyfan o 85%. Mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r cyfraddau cydymffurfio uchaf ar draws Cymru. Nid oedd y trefniadau PADR yn adolygiad Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd ond yn rhoi sicrwydd cyfyngedig (dyddiedig 24 Mai 2018), a nodai fod ansawdd a chwblhau yn

[14] https://patchwork.health/

[15] Deddf Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru) - Deddfwriaeth

feysydd i'w gwella. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau brys drwy gynnwys modiwl PADR yn y rhaglen datblygu rheolwyr canol. Mae'r camau eraill yn cynnwys cyflwyno proses arfarnu feddygol mewn gofal eilaidd (Adroddiad Diweddaru ar Berfformiad y Gweithlu, Hydref 2018). Fodd bynnag, yn ôl adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar Arfarniadau ac Ailddilysu Meddygol ym mis Medi 2018, mae angen o hyd i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno ffordd o gynnig mwy o gefnogaeth i feddygon locwm er mwyn sicrhau eu bod yn gallu derbyn arfarniad amserol, a'u bod yn gwneud hynny.

82 Mae Cynllun Pobl y Bwrdd Iechyd yn nodi amcanion sy'n gysylltiedig â hyfforddiant a datblygu, gan greu cysylltiadau rhwng hynny a blaenoriaethau'r CTCI. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio PADRs i nodi anghenion hyfforddi a datblygu unigol. Y mae hefyd wedi cyflwyno rhaglen ddatblygu i reolwyr a goruchwylwyr sy'n canolbwyntio ar feithrin sgiliau rheoli pobl a chefnogi Rhaglen Gweddnewid Dyfodol Clinigol. Mae Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol yn adrodd wrth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar gynnydd yn erbyn y cynllun hyfforddi a datblygu, yn rhan o'r Diweddariad ar Berfformiad y Gweithlu. Gwelsom hefyd fod is-bwyllgorau amrywiol yn derbyn adroddiadau cynnydd yn erbyn y Cynllun Pobl.

83 Gwelsom welliannau yng nghyfran y meddygon ymgynghorol sy'n cwblhau'r broses cynllunio swydd, o 58% ym mis Ebrill 2018 i 79% ym mis Rhagfyr 2018, er bod y gyfradd gydymffurfio yn dal yn llawer is na'r targed o 100%. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella perfformiad. Mae'n ailadrodd y broses uwchgyfeirio a ddefnyddiwyd ar gyfer arfarniadau ac ailddilysu meddygol, lle bo'r Cyfarwyddwr Meddygol yn anfon llythyrau atgoffa at feddygon ymgynghorol yn eu hysgogi i gwblhau eu cynlluniau swydd.

### Hyfforddiant statudol a gorfodol

84 Her barhaus i'r Bwrdd Iechyd yw gwella'r gyfradd gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant statudol a gorfodol. Yn Nangosyn 1 gwelir bod perfformiad y Bwrdd Iechyd (67%) yn is na chyfartaledd Cymru (73%) ac yn llawer is na'r targed (85%). Dywedodd staff y buom yn cyfarfod â hwy wrthym fod rhai grwpiau o staff yn amharod i gwblhau'r hyfforddiant neu'n rhoi'r flaenoriaeth i ofynion cyrff proffesiynol neu reoleiddwyr eraill yn hytrach na hyfforddiant statudol a gorfodol. Hefyd, mae problemau gyda systemau TG yn cyfyngu ar fynediad cyffredinol y gweithlu clinigol at fodiwlau hyfforddiant Statudol a Gorfodol gan olygu hyfforddiant grŵp/wyneb yn wyneb yn cael ei gyflwyno mewn rhai meysydd.

### Llesiant a chynnwys staff

85 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio canlyniadau o Arolwg Staff y GIG, arolygon wedi'u cynllunio'n arbennig ac ymyraethau wyneb yn wyneb i ddeall safbwyntiau staff. Mae arolwg staff y GIG o 2018 yn dangos gwelliant parhaus yn 2018 o gymharu â chanlyniadau arolygon staff y GIG yn 2013 a 2016. Mae gwelliannau'n cynnwys ymgysylltu cyffredinol â'r staff ac eiriolaeth ar ran y staff. Mae'n tynnu sylw at rai meysydd lle mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella, gan gynnwys bwlio ac aflonyddwch gan gleifion a chydweithwyr, a hyder y staff wrth gyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wella diogelwch a llesiant drwy annog staff i gyrchu gwasanaethau, fel cwnsela ar-lein, gwasanaeth gwrando llesiant cyflogeion, a mentrau llesiant fel y 'Chill-out Chapel' yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Yn y cyfamser, mae'r Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn datblygu rhaglen llesiant i'w staff sy'n canolbwyntio ar reoli straen yn effeithiol a hybu llesiant.

## Rheoli'r cyllid

86 Buom yn ystyried rheoli ariannol a chyllidebau, rheolaethau ariannol, a chefnogaeth a phrosesau gweithredol. Ar y cyfan, gwelsom fod **rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd yn gryf ac yn gwella; serch hynny, ceir heriau wrth reoli risgiau ariannol.**

87 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol ym mhob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf drwy fantoli'r gyllideb, ac y mae wedi sicrhau gwarged bychan bob blwyddyn.

88 Yn y CTCI a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018, nodwyd risg ariannol o £14 miliwn ar gyfer 2018-19 a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Diffyg sylfaenol o £19 miliwn
- Pwysau o ran costau o £45 miliwn
- £19 miliwn o arbedion wedi'u nodi
- Dyraniad ychwanegol o £31 miliwn

89 Dyma oedd y sefyllfa ar ddiwedd mis Tachwedd 2018 (ar ôl mis 8):

- £9 miliwn o arbedion ychwanegol wedi'u nodi
- Yr Adran Gyfrifo yn ennill £3 miliwn.
- £5 miliwn drwy ddiwygio costau.
- £3 miliwn yn llai o froceriaeth

90 Effaith net pob un o'r addasiadau uchod yw rhagolygon i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2018-19. Mae sicrhau'r cyllid ychwanegol yn amodol ar gyrraedd amrywiaeth o dargedau, felly mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn fod amcangyfrif o £4 miliwn yn y fantol os na chyrhaeddir targedau allweddol erbyn diwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd Iechyd £4.197 miliwn o gyllid mewn cronfa wrth gefn, ac o'r arian hwn, dim ond £0.151 miliwn sydd heb ei glustnodi. Mae gweddill y gronfa wrth gefn yn cynnal darpariaethau'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Cronfa Risg Cymru (£1.5 miliwn), ymrwymiadau cofrestru awtomatig ar gyfer pensiwn sy'n weddill, Cronfa Driniaethau a chynnal Arfarniad Technoleg NICE (£1.66 miliwn) ac ymrwymiadau eraill llai yn y CTCI.

91 Ar ddiwedd mis Tachwedd, roedd y rhaglen gwariant cyfalaf dewisol yn gyson â chynlluniau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, gyda thanwariant o £0.5 miliwn yn sgil 'llithriant' mewn nifer o gynlluniau. I wrthbwyso hyn, ar hyn o bryd ceir rhagolygon o oddeutu £0.5 miliwn o orwariant yn gysylltiedig â Chynllun Ysbyty'r Grange. Y rhagolygon cyfredol o wariant yw £32.884 ar gyfer y prosiect yn ei gyfanrwydd, o gymharu â'r dyraniad cyllid o £32.404 miliwn a gymeradwywyd.

92 Yn rhan o'n gwaith ar asesiad strwythuredig 2017, darparwyd gwybodaeth fanwl am drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio a chyflawni gwelliannau o ran costau ac arbedion ariannol. Gwelsom fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol, ond bod angen i'r Tîm Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol dderbyn gwybodaeth fanylach am gynnydd yn erbyn cynlluniau arbed. Mae'r Tîm Cyllid bellach yn darparu mwy o wybodaeth gryno, mwy o fanylion mewn adroddiadau Bwrdd, wedi addasu'r sgoriau risg mewn cynlluniau arbed er mwyn lleihau amwyster, ac erbyn hyn hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar gyflawni cynlluniau arbed. Caiff cynlluniau arbed hefyd eu trafod yn fanylach mewn cyfarfodydd sicrwydd cyllid is-adrannol (Argymhelliad 1, 2017).

93 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau symud oddi wrth raglenni gwella costau traddodiadol, er bod rhywfaint o ddibyniaeth o hyd ar arbedion yn gysylltiedig â thrafodion. Y mae wedi datblygu fframwaith sydd yn alinio perfformiad a ffactorau sy'n ysgogi costau ag effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd

yn amcangyfrif y gallai arbed hyd at £22 miliwn drwy leihau lefelau absenoldeb salwch, costau staff dros dro a hyd arosiadau hyd at lefelau meincnod. Y mae eisoes wedi gweithredu i wneud defnydd mwy effeithiol o wasanaethau banc ac i leihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth, y cyfeirir ati uchod. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn her, ac nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gwireddu'r holl fanteision posibl oherwydd prinder staff, yn enwedig mewn meysydd gwasanaeth allweddol.

94 Yn ein gwaith archwilio cyfrifon blynyddol, gwelsom fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar waith ar gyfer rheoli a rheolaeth ariannol. Mae hyn yn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i ardystio bod cyfrifon bob blwyddyn yn 'gywir a theg' ym mhob ffordd berthnasol.

95 Cyflawnir gwaith caffael gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - y Gwasanaeth Caffael (y tîm Caffael),[16] ar ran y Bwrdd Iechyd. Ceir strategaeth gaffael i Gymru gyfan, a chynllun busnes Cymru gyfan yn sail i hynny, ond nid oes unrhyw gynllun caffael cyffredinol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Yn gyffredin â chyrff eraill y GIG, mae gan y Bwrdd Iechyd gytundeb lefel gwasanaeth â'r Bartneriaeth Cydwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog i lywio arferion caffael. Roedd adolygiad y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd o Wariant nad yw'n gysylltiedig â Chyflogau yn rhoi sicrwydd rhesymol (dyddiedig 18 Mai 2018). Nodai'r adroddiad ddiffyg cytundeb lefel gwasanaeth manwl, polisïau a gweithdrefnau a oedd wedi dyddio a diffyg cydymffurfiaeth â'r weithdrefn ar gyfer Rheolaeth Ariannol. Deallwn fod y tîm Caffael yn drafftio cyfres newydd o bolisïau a gweithdrefnau ar ran y Bwrdd Iechyd.

96 Yn ddiweddar llwyddodd y Bwrdd Iechyd i sefydlu tîm caffael llawn a chanddo ddigon o adnoddau, a thystiolaeth o hyfforddiant a datblygiad a ddylai fod o gymorth iddo gyflenwi gwasanaeth effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi dau swyddog caffael ac yn comisiynu gweddill y swyddogaeth gaffael drwy'r Cydwasanaeth. Mae'r tîm Caffael yn defnyddio ymagwedd partner busnes ac mae arweinwyr caffael wedi'u lleoli ym mhob is-adran i weithio gyda rheolwyr gwasanaeth a chyflenwyr er mwyn sicrhau gwerth am arian a gwella deilliannau cleifion ar yr un pryd.

97 Yn ein harolwg o aelodau'r Bwrdd, canfuom fod naw o'r 17 (53%) o unigolion a ymatebodd naill ai'n ansicr neu heb fod yn hyderus ynghylch bod y modd y caiff caffael ei reoli o fewn y sefydliad yn sicrhau gwerth am arian. Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi lefel yr arbedion caffael y mae'n bwriadu eu sicrhau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Dengys adroddiad cryno ar berfformiad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fod y Bwrdd Iechyd wedi sicrhau cyfanswm o £4.2 miliwn o arbedion caffael rhwng mis Ebrill a mis Medi 2018, sydd dros ddwywaith y targed a gynlluniwyd (£1.8 miliwn) ar gyfer y flwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Pennaeth Caffael a'r Cyfarwyddwr Cyllid a bydd adroddiad blynyddol ar gaffael yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd. Ceir tystiolaeth hefyd i awgrymu bod gwybodaeth am risgiau caffael yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r Bwrdd Iechyd.

[16] Sefydliad annibynnol y mae GIG Cymru yn berchen arno ac yn ei gyfarwyddo yw Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC). Mae PCGC yn cefnogi GIG Cymru drwy ddarparu ystod gynhwysfawr o swyddogaethau a gwasanaethau o ansawdd uchel sydd yn canolbwyntio ar y cwsmer.

## Perfformiad, Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant

98 Buom yn edrych ar yr hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud i wella perfformiad, effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Gwelsom nad yw'r **Bwrdd Iechyd yn cyflawni yn erbyn yr holl dargedau mynediad allweddol, ond ei fod yn mynd ati'n weithredol i wella ei drefniadau i sicrhau effeithlonrwydd a chynhyrchiant.**

### Targedau amser aros allweddol

99 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi profi blwyddyn heriol, ac er bod **perfformiad wedi gwella mewn rhai meysydd, mae meysydd eraill fel cyrraedd targedau amseroedd aros mewn Gofal wedi'i Drefnu a Heb ei Drefnu yn parhau i fod yn gryn her.**

100 Yn Nangosyn 2 gwelir targedau a pherfformiad cymharol ar gyfer mis Tachwedd 2017 a mis Tachwedd 2018. Bu gwelliannau mewn amseroedd aros gofal wedi'i drefnu, ond dirywiad ym mherfformiad yr amseroedd aros sy'n gysylltiedig â gofal brys. Fodd bynnag, nid yw'r perfformiad yn erbyn yr holl fesurau yn cyd-fynd â'r proffil perfformiad a gynlluniwyd yn y CTCI, nac yn cyrraedd targedau cenedlaethol.

Dangosyn 2: Cymharu Perfformiad Gofal wedi'i Drefnu a Gofal Heb ei Drefnu rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Tachwedd 2018

| Mesur | Targed Cenedlaethol | Targed CTCI | Tachwedd 2017 | Tachwedd 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **Atgyfeirio i Driniaeth** | | | | |
| Cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos am driniaeth | 95% | 86% | 89.5% | 91.1% |
| Gleifion sy'n aros dros 36 wythnos am driniaeth | 0 | 0 | 1539 | 280 |
| Cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos am ddiagnosteg penodol | 0 | 0 | 1675 | 5 |
| **Adran Achosion Brys** | | | | |
| Nifer y trosglwyddiadau ambiwlans dros awr o hyd | 0 | 83 | 309 | 495 |
| Canran y cleifion sy'n aros llai na 4 awr yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys | 95% | 88.7% | 84.9% | 74.8% |
| Nifer y cleifion sy'n aros dros 12 awr yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys | 0 | 0 | 393 | 470 |

Ffynhonnell: Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan dyddiedig Rhagfyr 2018

101 Mae perfformiad yn dal i fod yn destun pryder yng nghyswllt nifer y cleifion y cafwyd oedi cyn cynnal eu hapwyntiad dilynol fel claf allanol. Ni chafwyd rhyw lawer o newid yn nifer yr apwyntiadau i gleifion allanol lle cafwyd oedi yn ystod 2018. Mae lleihau nifer yr apwyntiadau dilynol lle ceir oedi yn rhan allweddol o waith y Bwrdd Iechyd i drawsnewid a gwella gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi y canolbwyntiwyd ar leihau amseroedd aros wrth atgyfeirio yn hytrach nag ar leihau oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol mewn rhai meysydd clinigol.

### Gwella Llif Cleifion, Rheoli'r Galw am Wasanaethau Diagnostig a Gwella Mynediad at Wasanaethau

102 Mae ein gwaith eleni wedi ystyried ymagwedd y Bwrdd Iechyd at wella llif cleifion, rheoli'r galw am wasanaethau diagnostig a gwella mynediad at wasanaethau. Dengys ein canfyddiadau fod y **Bwrdd Iechyd yn buddsoddi adnoddau i ymdrin â meysydd lle ceir tanberfformio ac yn sicrhau rhai canlyniadau cadarnhaol.**

103 Mae Tîm Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan yn helpu i wella cynhyrchiant[17], effeithlonrwydd a llif cleifion drwy gynlluniau gwella cydweithredol.[18] Mae ei waith i atal briwiau pwysau ac ar y rhaglen alinio llif cleifion yn Is-adran Gofal Heb ei Drefnu y Bwrdd Iechyd wedi arwain at rai gwelliannau nodedig, gan gynnwys:

- rhwng mis Medi 2017 a mis Mai 2018, llwyddwyd i atal dros 50 o friwiau pwysau ar draws y chwe ward a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun cydweithredol. Mae hyn yn golygu gostyngiad o bron i 50% yn nifer y briwiau pwysau o gymharu a'r flwyddyn cyn cychwyn y cynllun. Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyderus bod hyn yn golygu gofal mwy diogel i gleifion, ac yn amcangyfrif ei fod wedi arbed £309,119.
- mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig i'r Bwrdd (dyddiedig Ionawr 2018) yn dangos bod yr Cynllun Cydweithredol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu yn parhau i ostwng hyd arosiadau ac achosion o ryddhau cleifion yn fuan.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati i ehangu'r ddau brosiect i sicrhau'r budd mwyaf posibl ar draws mwy o wardiau ac adrannau.

104 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithredu i wella llif cleifion ac yn adrodd am y llwyddiannau canlynol:

- trosglwyddo staff llif cleifion o'r timau rheoli corfforaethol i Ysbyty Brenhinol Gwent (YBG) ac Ysbyty Neuadd Nevill (YNN) gan wella'r llif ar y ddau safle
- ehangu ei Uned Eiddilwch yn YBG er mwyn osgoi achosion o dderbyn heb fod angen, drwy asesu cleifion allanol wrth ddrws blaen yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys
- datblygu achosion busnes i sicrhau cydgysylltwyr rhyddhau parhaol a thîm trosglwyddo yn YBG

[17] Cafodd Tîm Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan (ABCi) ei sefydlu yn 2013 gyda'r nod o gefnogi staff drwy eu helpu i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae'n defnyddio methodolegau gwella ac yn creu lle i arloesi drwy ddod â sefydliadau a gweithwyr proffesiynol ynghyd i ddatrys problemau ar y cyd.

[18] Ymgyrchoedd Gwella Cydweithredol ABCi

- mae'r Gwasanaethau Therapi bellach yn atgoffa cleifion ynghylch apwyntiadau clinig drwy neges-destun.

105 Roedd yr adolygiad Archwilio a Sicrwydd o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer Diagnosteg Gofal Wedi'i Drefnu o fewn yr Adran Radioleg yn rhoi sicrwydd rhesymol ac yn nodi sawl maes lle ceir arfer da yn gysylltiedig â phrosesau'r adran a'i dull o ymdrin ag amseroedd ar restr aros.

### Cynhyrchiant ac effeithlonrwydd

106 Yn ein gwaith eleni, buom yn ystyried trefniadau effeithlonrwydd a chynhyrchiant y Bwrdd Iechyd. Dengys ein canfyddiadau bod y Bwrdd Iechyd **wedi coleddu gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werth ac mae ei ddull o feincnodi yn canfod arbedion o bwys drwy gyfleoedd effeithlonni**.

107 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu rhaglen gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth sydd yn gyson â'r Strategaeth Dyfodol Clinigol a'i CTCI, a chyflawniad drwy'r Cynlluniau Newid Gwasanaeth. Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd: adolygu costau a chanlyniadau ar draws llwybrau gofal: nodi sut ac ymhle i ailddyrannu adnoddau er mwyn gwneud defnydd gwell ohonynt; a chreu canlyniadau ac ansawdd gwell i gleifion. Mae briff y rhaglen yn cynnwys disgrifiad manwl o'r rhaglen, ei hamcanion, y canlyniadau a ddymunir yn ei sil, y manteision, y risgiau, y dibyniaethau, y costau a'r graddfeydd amser. Mae'r seilwaith sy'n cynnal y rhaglen yn cynnwys cymorth ar lefel weithredol gan y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Cyllid, Tîm Gwerth dynodedig, Cyfarwyddwyr Meddygol Cynorthwyol a Thîm Cyllid/Meincnodi. O ganlyniad i ymagwedd lefel sefydliad y Bwrdd Iechyd, fe'i henwebwyd am y wobr gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yn ystod 2018.

108 Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu 24 o ffrydiau gwaith gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, pob un ohonynt mewn cyfnod gwahanol o ran aeddfedrwydd, ac mae'r Tîm Gweithredol, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, a'r Bwrdd yn goruchwylio'n weithredol a strategol. Disgrifiodd rheolwyr rhai llwyddiannau nodedig yn ei waith ym maes iechyd meddwl ac apwyntiadau dilynol i gleifion allanol. Mae CTCI y Bwrdd Iechyd yn nodi sut mae'n cymhwyso egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth wrth gyflunio'r gweithlu er mwyn ailddylunio'r llwybr fasgwlaidd, trin rhwymedd paediatrig, a theledermatoleg gyda mân driniaethau meddyg teulu, ddylai greu gostyngiad mewn galw a chost amhriodol. Mae'r Tîm Gwerth yn asesu pob ffrwd waith er mwyn deall i ba raddau y mae'n llwyddo, ac yn anelu i gymhwyso'r hyn a ddysgir i waith sydd ar ddod ym maes diabetes. Roedd adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn ystod mis Tachwedd 2017 yn amlygu'r angen i wella galluogrwydd a chapasiti TG mewnol er mwyn sicrhau gwelliannau pellach i'r rhaglen gofal iechyd seiliedig ar werth.

109 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn weithredol mewn gweithgareddau meincnodi. Mae ganddo dim meincnodi penodol ac mae'n aelod o CHKS[19] ac o glwb meincnodi'r GIG. Mae cymryd rhan mewn ymarferion meincnodi wedi'i helpu i ganfod rhai arbedion nodedig drwy arbedion effeithlonrwydd. Fel y soniwyd eisoes ym mharagraff 90 uchod, nodir yn Adroddiad Cyllid a Pherfformiad y Bwrdd Iechyd (dyddiedig Medi 2018) fod ei gynlluniau arbed yn cynnwys cyfleoedd am £5 miliwn o arbedion effeithlonrwydd cyfiawnadwy, a thrwy wybodaeth meincnodi llwyddwyd i £22 miliwn pellach o arbedion posibl drwy:

- leihau hyd arosiadau, achosion o ail-dderbyn cleifion a mynychder cwympiadau

[19] http://www.chks.co.uk/

- gwella cynhyrchiant theatrau a'r defnydd o adrannau cleifion allanol
- gostwng lefelau salwch ymhlith y staff
- lleihau'r defnydd o staff asiantaeth meddygol a nyrsio.

110 O'n harolwg o aelodau bwrdd, canfuom fod gan 12 o'r 17 (70%) o unigolion a ymatebodd ddealltwriaeth glir o'r camau y mae'r sefydliad yn eu cymryd i gyflwyno gwelliannau o ran costau ac i wella effeithlonrwydd gwasanaethau.

## Defnyddio gwybodeg i gefnogi darpariaeth gwasanaeth

111 Buom yn asesu trefniadau'r Bwrdd Iechyd i ddefnyddio technoleg i gefnogi darpariaeth gwasanaeth. Canfuom **ymagwedd strategol dda o fewn y gwasanaeth gwybodeg, ond bod angen ffocws wrth fuddsoddi yn y gwasanaeth hwnnw a goruchwyliaeth gryfach dros effaith risgiau yn gysylltiedig â system TG genedlaethol**.

112 Cytunodd y Bwrdd Iechyd ar raglen amlinellol strategol (RhAS) pum mlynedd o hyd ar gyfer gwybodeg, a gafodd ei llunio'n wreiddiol tua diwedd 2016. Mae'r RhAS bellach yn cael ei diwygio a'i hailflaenoriaethu yn rhan o strategaeth trawsnewid digidol ehangach yn unol â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd a'r gyllideb sydd ar gael iddo. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ymgynghori ar y strategaeth trawsnewid digidol, ei chwblhau a'i chymeradwyo erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019. Y mae wedi sefydlu Bwrdd Cyflawni Trawsnewid i Ddigidol er mwyn goruchwylio cyflawniad y rhaglen ddigidol.

113 Mae potensial i brosiectau trawsnewid, a alluogir drwy dechnoleg ddigidol, wella cynhyrchiant a chreu arbedion effeithlonrwydd. Bydd cyflwyno'r Strategaeth Ddigidol a buddsoddiadau mewn technolegau digidol newydd, er enghraifft, moderneiddio diagnosteg, mentrau tele-iechyd, e-Fferyllfa a llif cleifion yn dibynnu ar seilwaith TGCh modern a gwydn i'w gefnogi.

114 Yn gyffredinol, darparwyd cyllid gwybodeg yn 2017-18 ar gyfer seilwaith TGCh ac i uwchraddio technoleg. Er gwaethaf y buddsoddiad ychwanegol hwn, ceir amryw o risgiau o hyd yn gysylltiedig ag argaeledd ac oedi wrth weithredu systemau TG cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r oedi a gafwyd wrth weithredu System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn golygu bod cyfle wedi'i golli, oherwydd y diffyg gwybodaeth ddibynadwy am wasanaethau a chynhyrchiant yn y gymuned.

115 Ceir amryw o fentrau lleol a phrosiectau peilot cadarnhaol sy'n defnyddio technoleg er mwyn helpu i wella llif cleifion, a chefnogi tele-iechyd. Mae strwythur wedi'i sefydlu ar gyfer yr adran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ond gallai'r cyfyngiadau parhaus ar adnoddau (Argymhelliad 5, 2017) gyfyngu ar y graddau y gall TGCh gynnal y seilwaith TG presennol a newid gwasanaethau drwy dechnolegau digidol galluogol. Gallai hyn hefyd achosi risgiau o ran parhad a chydnerthedd busnes gan fod y seilwaith TGCh yn heneiddio.

116 Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth wedi craffu ar waith yr Adran Wybodeg. Fodd bynnag, er mwyn bod yn fwy effeithiol, dylai gryfhau ei ffocws ar oruchwylio cyflawniad y cynlluniau strategol ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg, yn hytrach nag ar faterion gweithredol.

## Rheoli'r ystâd ac asedau eraill ffisegol

117 Yn olaf, buom yn ystyried y modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei ystadau a'i asedau eraill ffisegol. Gwelsom **fod angen i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu rheolaeth mwy trylwyr a strategol ar asedau, yn enwedig dyfeisiau a chyfarpar meddygol**.

118 Yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu Strategaeth Ystadau a oedd yn adlewyrchu cyflwr presennol ei adeiladau ac yn cefnogi cyflawniad y Strategaeth Dyfodol Clinigol. Eleni, cwblhaodd y Bwrdd Iechyd ei arolwg 6 ffased o'r[20] ystâd y mae'n berchen arni, ac mae'n ymgorffori'r arolwg hwnnw yn ei Strategaeth Ystadau drafft. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd y Strategaeth Ystadau i'r Bwrdd i'w gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2019 (Argymhelliad 6, 2017). Mae CTCI y Bwrdd Iechyd yn nodi'r bwriad strategol o ran y swyddogaeth Ystadau, ac fe geir hefyd Raglen Gyfalaf, sy'n nodi'r gwariant cyfalaf sydd ei angen dros y flwyddyn nesaf.

119 Nid oedd yr adroddiad Archwilio a Sicrwydd ar Ddyfeisiau a Chyfarpar Meddygol y Bwrdd Iechyd (dyddiedig Ionawr 2018) yn rhoi rhyw lawer o sicrwydd. Ceir trefniadau i asesu risg cyfarpar meddygol yn weithredol, ond cododd y tîm Archwilio a Sicrwydd bryderon ynghylch monitro digwyddiadau yn gysylltiedig â chyfarpar meddygol a adroddir ar system Datix. Ni thynnwyd sylw at unrhyw risgiau difrifol yn gysylltiedig â chyfarpar meddygol yn ystod ein gwaith maes. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod yr adroddiad Archwilio a Sicrwydd wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, a bod risgiau a materion yn gysylltiedig â chyfarpar meddygol wedi cael eu trafod yn fanwl yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion.

120 Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rheoli ystadau yn glir. Mae gan y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Gweithrediadau gyfrifoldeb strategol cyffredinol dros ystadau a chyfleusterau, tra bod gan y Cyfarwyddwr Is-adrannol Ystadau a Chyfleusterau gyfrifoldeb gweithredol dros hynny. Mae'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn gyfrifol am Gynllunio Cyfalaf ac am y rhaglen gyfalaf, ac yn cadeirio Grŵp Cyfalaf ac Ystadau Strategol y Bwrdd Iechyd a Grŵp y Rhaglen Gyfalaf.

121 Mae gan y Bwrdd Iechyd reolau a gweithdrefnau clir ynghylch sut y mae'n rheoli caffaeliadau, gwarediadau a materion eraill yn gysylltiedig ag eiddo, ac mae'r Polisi Cynnal yn nodi safonau rheoli perfformiad ar gyfer amseroedd ymateb. Ceir mwy o ganllawiau yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd ac yn Estatecode[21].

122 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio MICAD ac e-PIMS (Gwasanaeth Mapio Gwybodaeth am Eiddo yn electronig) i gadw gwybodaeth am ystadau a rheoli ei eiddo. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad Archwilio a Sicrwydd o Gyfarpar a Dyfeisiau Meddygol nad oes gan y Bwrdd Iechyd gofrestr asedau gyffredinol ar gyfer ei ddyfeisiau a'i gyfarpar meddygol. Yn ein harchwiliad asesu strwythuredig, canfuom nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhyw lawer o gynnydd o ran ymdrin ag argymhellion Archwilio a Sicrwydd, ond dywedwyd wrthym fod rhywfaint o waith wedi'i gwblhau yn gysylltiedig â gwelyau ysbyty a chyfarpar uwchsain gan olygu bod asedau wedi'u tagio'n well.

[20] Adolygiad o gyflwr allanol ystâd y GIG yw arolwg ffased; mae a wnelo nifer y ffasedau â chwmpas yr adolygiad neu'r elfennau a adolygir.

[21] Llawlyfr defnyddiwr i sefydliadau'r GIG sy'n rheoli'r ystâd gofal iechyd i'w defnyddio yn y presennol a'r dyfodol yw Estatecode. Mae'n cynnwys cyngor am amrywiaeth eang o destunau'n ymwneud ag ystadau, gan gynnwys trafodion tir, materion cynllunio tref a chanllawiau ar asesiadau sylfaenol o gyflwr yr ystâd, yn rhan o'r prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chynllunio corfforaethol a phenderfyniadau buddsoddi.

123 Roedd tri ar ddeg o'r 17 (76%) o unigolion a ymatebodd i'n harolwg o aelodau bwrdd naill ai'n ansicr neu heb fod yn hyderus bod y modd y caiff asedau eu rheoli o fewn y sefydliad yn sicrhau gwerth am arian. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli risg cadarn ar gyfer Ystadau, ac mae risgiau'n gysylltiedig ag ystadau wedi'u cofnodi naill ai ar y Gofrestr Risg Iechyd a Diogelwch Gorfforaethol neu ar Gofrestrau Risg Is-adrannol. Mae'r Bwrdd yn derbyn y Dangosfwrdd Risg Strategol, sy'n cynnwys risgiau corfforaethol yn gysylltiedig ag ystadau. Mae'r Bwrdd Is-adrannol yn adolygu'r adroddiad risg ar gyfer ystadau a chyfleusterau yn ei gyfarfodydd chwe-misol a gynhelir ym mis Rhagfyr a mis Mehefin. Mae'r Grŵp Cyfalaf yn uwchgyfeirio unrhyw risgiau na ymdrinnir â hwy yn y cyfarfod Is-adrannol i'r Bwrdd. Ceir trefniadau rheoli perfformiad digonol ar gyfer y tîm Ystadau. Mae adroddiadau cyfarfodydd is-adrannol misol Ystadau a Chyfleusterau yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ariannol a pherfformiad y gweithlu, ond nid ydynt yn cynnwys unrhyw wybodaeth am berfformiad ystadau, er enghraifft, gwaith cyfalaf sydd wedi'i gwblhau, perfformiad yn erbyn gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, cydymffurfiaeth ag arolygiadau cydymffurfio statudol, a bodlonrwydd cwsmeriaid â'r ystadau. Deallwn fod y Bwrdd Iechyd yn datblygu dangosfwrdd perfformiad fydd yn gwella adroddiadau ar berfformiad yn gysylltiedig â swyddogaethau ystadau, a allai gynyddu hyder aelodau'r bwrdd bod asedau'n cael eu rheoli'n dda.

# Argymhellion

### Dangosyn 3: argymhellion 2018

Mae'r tabl isod yn dangos yr argymhellion a oedd yn deillio o Asesiad Strwythuredig 2018. Yn Nangosyn 4 gwelir y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion yn ein hadroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2017. Byddwn yn parhau i fonitro gweithrediad lle dangosir bod argymhellion 'ar y gweill', ac rydym felly wedi ceisio peidio â'u hailadrodd yn Nangosyn 3.

| **Argymhellion 2018** |
| --- |
| **Llywodraethu** |
| A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• sicrhau bod cyrsiau ymsefydlu a hyfforddi i'r aelodau yn bodloni anghenion Aelodau Annibynnol<br>• archwilio'r rhesymau pam bod cwynion gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth wedi cynyddu yn rhan o'i Gynllun Gwella Gwasanaethau Gweithio i Wella<br>• egluro canfyddiadau ynghylch gallu pwyllgorau'r Bwrdd i ryngweithredu. |

| Argymhellion 2018 |
| --- |
| **Y Fenter Twyll Genedlaethol** |
| A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod y parau y mae'n eu derbyn drwy ymarferion NFI yn y dyfodol yn cael eu hadolygu, ac yr ymchwilir yn brydlon iddynt, lle bo angen. Disgwyliwn i'r Bwrdd Iechyd:<br>• gychwyn adolygu'r parau data ar y cyfle cyntaf ar ôl rhyddhau parau nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol ym mis Ionawr 2019<br>• yn ogystal ag adolygu'r holl barau uchel eu blaenoriaeth a argymhellir i'w hadolygu, cynnal adolygiad o sampl o'r parau data sy'n weddill<br>• lle bo parau data wedi'u hadolygu, sicrhau bod rhaglen we'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei diweddaru i roi cofnod clir o'r modd yr aethpwyd ati i adolygu'r parau, a chanlyniadau'r adolygiadau hynny. |
| **Llywodraethu Gwybodaeth** |
| A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth drwy:<br>• wella cydymffurfiaeth â'r rhaglen hyfforddi llywodraethu gwybodaeth er mwyn cyrraedd y gyfradd genedlaethol o 95%.<br>• gwella perfformiad yn erbyn targedau mynediad at wybodaeth ar gyfer y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data er mwyn cyrraedd y targedau statudol<br>• cryfhau ffocws y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth i graffu ar gyflawniad cynlluniau strategol gwybodeg yn hytrach na materion gweithredol. |
| **Gwybodeg** |
| A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â meysydd i'w gwella yn gysylltiedig â gwybodeg, yn benodol:<br>• asesu'r anghenion o ran adnoddau o fewn yr Adran Wybodeg er mwyn gwella cydnerthedd y seilwaith TGCh a chyflwyno caledwedd a meddalwedd newydd yn lle rhai sydd wedi heneiddio<br>• cwblhau a chymeradwyo'r strategaeth trawsnewid digidol erbyn diwedd 2019<br>• goruchwylio risgiau'n gysylltiedig â systemau cenedlaethol a chraffu ar gyflawniad y gwasanaethau hyn a'u heffaith ar y sefydliad<br>• gorffen gweithredu cynlluniau er mwyn cryfhau'r trefniadau ar gyfer rheolaeth seiberddiogelwch<br>• diweddaru cynlluniau adfer ar ôl trychineb TGCh a phrofi'r rhain er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio fel y bwriadwyd. |
| **Rheoli Asedau** |
| A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i wella'r rheolaeth ar yr asedau sydd ganddo nad ydynt yn rhan o'r ystâd drwy:<br>• gytuno ar Strategaeth Asedau<br>• sicrhau cofrestrau asedau addas i gefnogi rheoli asedau. |

# Atodiad 1

## Cynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol

Dangosyn 4: Hunanadroddiad y Bwrdd Iechyd o'i gynnydd yn erbyn argymhellion 2017

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| **Monitro ac adrodd ar gynlluniau arbed**<br>A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd roi mwy o fanylion i Swyddogion Gweithredol ac Aelodau Annibynnol ynghylch cynnydd yn erbyn cynlluniau arbed. Dylai hyn fod o gymorth iddynt herio cynlluniau nad ydynt yn cyrraedd targedau a chraffu arnynt yn ddigonol. | Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddarparu gwybodaeth gryno am gynlluniau arbed a'r gallu i'w cyflawni. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi addasu ei gynllun ariannol er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol, ac mae crynodeb o hyn wedi'i gyflwyno mewn adroddiadau i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi addasu ei sgôr risg er mwyn lleihau amwysedd ynghylch cynlluniau arbed a ddyfarnwyd yn gynlluniau 'ambr' yn y gorffennol. Bydd mwy o bwyslais ar y gallu i gyflawni'r arbedion ariannol gofynnol, ac felly tynnir sylw at fanylion yn gysylltiedig â chynlluniau nad ydynt yn cyrraedd y targed. Yn ogystal â hynny, bydd cyfarfodydd sicrwydd ariannol Is-adrannol yn parhau i gynnal trafodaeth fanylach ar gynlluniau arbed. | Ar y gweill |
| **Papurau bwrdd a phwyllgorau**<br>A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod Aelodau Bwrdd a Phwyllgorau yn derbyn digon o wybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau cadarn a chraffu'n effeithiol drwy:<br>a. sicrhau bod digon o amser i ystyried eitemau ar yr agenda yn ystod cyfarfodydd;<br>b. sicrhau bod adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth sydd yn berthnasol i gylch gorchwyl y Bwrdd neu'r pwyllgorau;<br>c. cynnig mynediad at wybodaeth ychwanegol neu wybodaeth gefndir; | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno fformat newydd ar gyfer adroddiadau Bwrdd a phwyllgorau, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gynnwys gwybodaeth gryno sy'n cyfeirio at y pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Mae fformat yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth allweddol a hyperddolenni er mwyn hwyluso mynediad at bapurau cefndir ychwanegol. Mae hyn wedi lleihau maint pecyn yr agenda ac wedi rhoi ffocws ar wybodaeth hanfodol fydd o gymorth wrth ddod i benderfyniad.<br><br>Mae Aelodau'r Bwrdd wedi rhoi sylwadau cadarnhaol ynghylch y gostyngiad ym maint y pecyn agenda, ansawdd y papurau a'r | Cwblhawyd |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| d. sicrhau bod adroddiadau'r agenda o hyd rhesymol, fel ei bod hi'n rhesymol disgwyl i'r aelodau eu darllen cyn y cyfarfod. | wybodaeth gryno a ddarparwyd. Mae cyfarfodydd y bwrdd bellach y fyrrach ac mae gwaith pellach yn cael ei gyflawni i alluogi Pwyllgorau i fabwysiadu ymagweddau tebyg. | |
| **Rheoli risg**<br>A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu trefniadau rheoli risg er mwyn sicrhau bod risgiau corfforaethol y cael eu huwchreoli a'u rheoli'n briodol drwy:<br>a. ddatblygu ei adroddiadau risg presennol er mwyn sicrhau bod cyd-destun y risg a'r cynnydd o ran ei rheoli wedi'u nodi'n glir;<br>b. diwygio'r sgôr risg ar sail camau lliniarol. | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad llaw o'i Gofrestr Risg Gorfforaethol ac wedi diweddaru ei drefniadau ar gyfer Adrodd am Risg.<br><br>Mae ymarfer diagnosteg risg ar waith drwy'r Bwrdd Iechyd cyfan er mwyn darparu gwybodaeth bellach yn sail ar gyfer y gwaith gwella hwn drwy symleiddio a safoni gweithgarwch rheoli risg.<br><br>Mae Fframwaith Sicrwydd Bwrdd newydd yn cael ei gwblhau, sy'n cynnwys adroddiadau un risg i bob tudalen. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar y risg o beidio â chyflawni'r CTCI ac yn seiliedig ar y Cynlluniau Newid Gwasanaeth (CNGau) a'r blaenoriaethau a ddatganwyd gan y Bwrdd Iechyd. | Ar y gweill |
| **Rheolaeth fewnol**<br>A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod archwiliadau clinigol yn rhoi sicrwydd o fewn fframwaith sicrwydd, sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y sefydliad. | Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol wedi cyflwyno gwaith wedi'i ddiweddaru ar Reoli ac Adrodd ar Archwiliadau Clinigol gerbron y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion.<br><br>Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd yn arwain gwaith gyda chydweithwyr o'r Tîm Gweithredol i greu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a Diogelwch y bydd yr adran archwilio clinigol yn chwarae rhan allweddol ynddo, gan anelu i gyflwyno cynnig i'w ystyried gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion erbyn mis Ionawr 2019. | Ar y gweill |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| **Technoleg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth**<br>A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adnoddau a ddyrennir ar gyfer technoleg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth yn darparu digon o gapasiti i gyflawni cynlluniau'r Bwrdd Iechyd. | Cafodd y Cynllun Amlinellol Strategol (CAS) ei baratoi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2016. Er i Lywodraeth Cymru gydnabod y Cynllun, ni chytunwyd ar unrhyw broses gymeradwyo. Mae proses y CTCI yn cynnwys y CAS ar mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ei strategaeth trawsnewid digidol ac yn anelu i'w chwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2018.<br><br>Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ariannu achos busnes TGCh creiddiol sydd wedi arwain at fuddsoddi £600,000 gan gychwyn gyda £300,000 yn 2018-19.<br><br>O ganlyniad i adolygiad allanol o seiberddiogelwch, mae 14 o aelodau staff wedi cael eu recriwtio, gan gynnwys arbenigwyr seiberddiogelwch, staff rheoli systemau; a staff i'r Ddesg Gymorth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw ond megis dechrau mynd i'r afael â chanfyddiadau argymhellion 2017 ar ôl buddsoddi'n sylweddol mewn staff.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod cydymffurfio â RhDDC yn rhan allweddol o'i fframwaith llywodraethu. Gan hynny, cafwyd cytundeb i fuddsoddi ymhellach er mwyn recriwtio staff ychwanegol.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi buddsoddi mewn meddalwedd Deallusrwydd Busnes Qlik Sense ac ar hyn o bryd yn cynllunio ac yn rhoi'r feddalwedd honno ar waith.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod wedi ymrwymo i raglen WCCIS ac mae'r gyfarwyddiaeth wybodeg hefyd yn cynnal dwy raglen TG | Ar y gweill |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| | genedlaethol - System Llif Cleifion Electronig Genedlaethol a Gwasanaethau Gofal a Alluogir drwy Dechnoleg. | |
| **Rheoli Ystadau**<br>A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu Strategaeth Ystadau sy'n adlewyrchu cyflwr cyfredol ei adeiladau ac sy'n cefnogi cyflawniad y Strategaeth Dyfodol Clinigol. | Mae'r arolwg 6 ffased o'r ystadau wedi'i gwblhau yn holl eiddo'r Bwrdd Iechyd, ac wedi'i ymgorffori yn y Strategaeth Ystadau a gyflwynwyd i'w chymeradwyo gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2019. | Cwblhawyd |
| **Ymgysylltu**<br>A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu, ailwampio a diweddaru'r Strategaeth Ymgysylltu - 'Hearing and acting upon the voice of our staff and citizens'. | Ar adeg ein harchwiliad roedd Strategaeth Ymgysylltu ddiwygiedig y Bwrdd Iechyd yn destun craffu drwy'r broses lywodraethu arferol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno'r Strategaeth Ymgysylltu, sydd wedi'i halinio â'r Strategaeth Glinigol ac ymagwedd Profiadau Cleifion y Bwrdd Iechyd, i'r Bwrdd i'w chymeradwyo ym mis Mawrth 2019.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu ambell ffrwd waith benodol i gefnogi rhaglen waith y Strategaeth Dyfodol Clinigol, sef y Gweithlu a DT/Ymgysylltu â Staff a Chyfathrebu ac Ymgysylltu. | Ar y gweill |

# Atodiad 2

## Ymateb y Bwrdd Iechyd i argymhellion eleni

Arddangosyn 5: ymateb y rheolwyr i argymhellion 2018

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sydd â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | **Llywodraethu**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• sicrhau bod cyrsiau ymsefydlu a hyfforddi i'r aelodau yn bodloni anghenion Aelodau Annibynnol; | Bydd y broses o wneud penderfyniadau'n gwella. | Ydi | Do | Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi cyflwyno rhaglen sefydlu a hyfforddiant ar gyfer 2018/2019. Cwblhawyd nifer o elfennau'r rhaglen. Bydd y rhaglen yn cael ei chwblhau yn ystod 2019. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn rhan o'r gwaith o ailgynllunio Rhaglen Sefydlu genedlaethol GIG Cymru. | Rhagfyr 2019 | Richard Bevan, Ysgrifennydd y Bwrdd |
| | • archwilio'r rhesymau pam bod cwynion gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth wedi cynyddu yn rhan o'r cynllun gwella gwasanaethau ar gyfer Gweithio i Wella | | Ydi | Do | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi swyddog newydd i arwain y Tîm Unioni Cam.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad thematig o'r rhesymau dros y cynnydd yn nifer y cwynion ffurfiol ac wedi paratoi cynllun gwella. Mae'r Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn monitro cynnydd yn ofalus iawn. | Rhagfyr 2019 | Martine Price, Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sydd â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • egluro canfyddiadau ynghylch gallu pwyllgorau'r Bwrdd i ryngweithredu. | Bydd y broses o wneud a derbyn penderfyniadau'n gwella | Ydi | Do | Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n cwblhau adolygiad llawn o'i Bwyllgorau a'u cylchoedd gorchwyl i'w hannog i gydweithredu mwy ac i osgoi dyblygu gwaith. | Mai 2019 | Richard Bevan, Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A2 | **Y Fenter Twyll Genedlaethol**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod y parau y mae'n eu derbyn drwy ymarferion NFI yn y dyfodol yn cael eu hadolygu, ac yr ymchwilir yn brydlon iddynt, lle bo angen. Disgwyliwn i'r Bwrdd Iechyd:<br>• gychwyn adolygu'r parau data ar y cyfle cyntaf ar ôl rhyddhau parau nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol ym mis Ionawr 2019;<br>• yn ogystal ag adolygu'r holl barau uchel eu blaenoriaeth a argymhellir i'w hadolygu, cynnal adolygiad o sampl o'r parau data sy'n weddill; | Rheolaeth well dros dwyll posibl. | Ydi | Do | Caiff parau data sydd â blaenoriaeth uchel eu hadolygu gyntaf. Y llynedd, cafodd y rhain eu hadolygu a chymerwyd y camau priodol ym mis Chwefror 2018.<br><br>Cymerwyd y camau priodol yn achos yr holl barau data 3 ffordd ym mis Chwefror 2018. | Mawrth 2019 | Glyn Jones, Cyfarwyddwr Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sydd â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | • lle bo parau data wedi'u hadolygu, sicrhau bod rhaglen we'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei diweddaru i roi cofnod clir o'r modd yr aethpwyd ati i adolygu'r parau, a chanlyniadau'r adolygiadau hynny. | | | | Cwblhawyd a diweddarwyd yr holl gamau y rhoddwyd blaenoriaeth uchel iddynt. Mae parau data eraill yn cael eu diweddaru.<br><br>Bydd y broses ar gyfer 2018/2019 yn cael ei chwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2019. | | |
| A3 | **Llywodraethu Gwybodaeth**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth drwy:<br>• wella cydymffurfiaeth â'r rhaglen hyfforddi llywodraethu gwybodaeth er mwyn cyrraedd y gyfradd genedlaethol o 95%; | Fframwaith mwy effeithiol ar gyfer trefniadau llywodraethu gwybodaeth. | Ydi | Do<br><br>Pwyllgor Ansawdd a Diogelu Cleifion | Adolygwyd hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth oherwydd y newidiadau yn y ddeddfwriaeth yn ymwneud â GDPR. Datblygwyd a lansiwyd modiwl ychwanegol yn ymdrin â Diogelwch Seiber ac mae'n orfodol i'r holl staff.. Mae'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth wedi sefydlu Grwpiau Cyflenwi Llywodraethu Gwybodaeth ym mhob Is-adran yn y sefydliad. Caiff y cyfarfodydd eu cynnal bob chwe mis ac mae hyfforddiant yn cael ei gynnwys ar agenda pob cyfarfod. Caiff trafodaethau penodol eu cynnal ar gydymffurfio a gofynnir i'r rheolwyr wella'u cyfraddau cydymffurfio. Caiff adroddiadau eu | Mawrth 2020 | Nicola Prygodzicz, Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sydd â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | hasesu gan y Bwrdd Cyflenwi Trawsnewid i'r Digidol. | | |
| | • gwella perfformiad yn erbyn targedau mynediad at wybodaeth ar gyfer y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data er mwyn cyrraedd y targedau statudol; | Fframwaith mwy effeithiol ar gyfer trefniadau llywodraethu gwybodaeth. | Ydi | Do | Yn ystod 2018/19, mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi gwella o ran cydymffurfio â thargedau statudol a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar hyn yn 2019/2020. | Mawrth 2020 | Richard Bevan, Ysgrifennydd y Bwrdd a Richard Howells, Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth |
| | • cryfhau ffocws y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth i graffu ar gyflawniad cynlluniau strategol gwybodeg yn hytrach na materion gweithredol. | Fframwaith mwy effeithiol ar gyfer trefniadau llywodraethu gwybodaeth. | Ydi | Do | Mae agenda'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn canolbwyntio ar gynlluniau strategol yn ymwneud â gwybodeg ac mae eitemau eraill ar yr agenda'n cadarnhau hynny. Bydd y Cylch Gorchwyl diwygiedig hefyd yn tanlinellu hyn. | Mawrth 2020 | Nicola Prygodzicz, Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG |
| A4 | **Gwybodeg**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â gwendidau yn ei ddefnydd o wybodeg, a'r canlynol yn benodol:<br>• y cyfyngiadau ar adnoddau o fewn yr Adran Wybodeg er mwyn gwella cydnerthedd y seilwaith TGCh a chyflwyno | Adnoddau a ffocws strategol gwell ar gyfer prosiectau trawsnewid. Rheolaeth well dros drefniadau diogelwch seiber a dibynadwyedd y seilwaith TGCh. | Ydi | Do | Cymeradwywyd achos busnes yn 2017 a rhoddwyd blaenoriaeth i sicrhau adnoddau i gryfhau diogelwch seiber a'r NISD. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn awr wedi penodi:<br>• Arweinydd y Tîm Diogelwch Seiber<br>• 2 Swyddog Diogelwch Seiber<br>• 2 Beiriannydd Systemau | Cwblhawyd y broses recriwitio | Nicola Prygodzicz, Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sydd â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | caledwedd a meddalwedd newydd yn lle rhai sydd wedi heneiddio; | | | | Mae'r tîm hwn yn canolbwyntio ar roi polisi a gwasanaeth gwaelodol ar waith i gadw'r asedau TGCh yn ddiogel ac yn gyfredol a byddant hefyd yn sail i gynlluniau yn y dyfodol. | | |
| | • cwblhau a chymeradwyo'r strategaeth trawsnewid digidol erbyn diwedd 2019; | | Ydi | Do | Gwnaed rhagor o waith i gydymffurfio â'r IMTP, ac mae fersiwn ddiwygiedig yn awr wedi'i drafftio i'r Bwrdd Iechyd ei chymeradwyo. | Rhagfyr 2019 | Nicola Prygodzicz, Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG |
| | • goruchwylio risgiau'n gysylltiedig â systemau cenedlaethol a chraffu ar ddarpariaeth y gwasanaethau hyn a'u heffaith ar y sefydliad; | | Ydi | Do | Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o lywodraethu'n dilyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at yr adolygiad ac yn cymryd camau penodol, gan gynnwys adolygiad pensaernïol. | Rhagfyr 2019 | Nicola Prygodzicz, Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG |
| | • cryfhau'r trefniadau rheolaeth seiberddiogelwch a'r adnoddau ar gyfer hynny drwy sefydlu tîm arbenigol, cynlluniau cydnerthedd a | | Ydi | Do | Fel y nodwyd uchod, mae nifer o swyddogion wedi'u penodi i swyddi allweddol yn ymwneud â diogelwch seiber. Mae'r gwaith o baratoi polisïau personél allweddol a gwasanaethau gwaelodol wedi'i gwblhau. | Medi 2019 | Nicola Prygodzicz, Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydi/nac ydi) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sydd â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | chynlluniau ymateb i ddigwyddiadau;<br>• diweddaru ei gynlluniau adfer ar ôl trychineb TGCh a phrofi'r rhain er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio fel y bwriadwyd. | | Ydi | Do | Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r tîm recriwitio newydd i gydymffurfio â'r NISD. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen wrthi'n blaenoriaethu ac yn cynllunio trefniadau parhad dan arweiniad y Tîm Cynllunio at Argyfwng. | Medi 2020 | Nicola Prygodzicz, Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG |
| A5 | **Rheoli Asedau**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i wella'r rheolaeth ar yr asedau sydd ganddo nad ydynt yn rhan o'r ystâd drwy:<br>• gytuno ar Strategaeth Asedau;<br>• sicrhau cofrestrau asedau addas i gefnogi gwaith rheoli asedau. | Rheolaeth well dros y modd y defnyddir asedau. | Ydi | Do | O dan GDPR, rhaid i sefydliadau gadw Cofrestr o Asedau Gwybodaeth.<br><br>Mae gan TG Gofrestr o Asedau'n sy'n nodi'r holl gyfarpar TG sydd gan y Bwrdd Iechyd.<br><br>Mae'r uned Llywodraethu Gwybodaeth yn cadw'r gofrestr asedau, sy'n cynnwys y canlynol:<br>• Gwybodaeth Cleifion/Personol Adnabyddadwy<br>• Cofnodion staff<br>• Gwybodaeth Cleifion/Personol anadnabyddadwy<br>Defnyddir y system ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. | Adolygwyd bob tri mi – adolygiad blynyddol fis Mawrth 2020 | Nicola Prygodzicz, Cyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales